• www.ecorwyddfa.co.uk •

ECO'r Wyddfa

Rhif: 486
Tachwedd 2020

# Elin Enfys





## Chwilio am Elin Enfys

Yn ystod misoedd hir y clo fe wnaeth Eco'r Wyddfa gynnal cystadleuaeth i greu cymeriad cudd i'r papur bro. Roedden ni am i artist o'r ardal greu cymeriad sy'n codi gwên, y byddai darllenwyr Eco'r Wyddfa yn edrych ymlaen at chwilio amdano rhwng y tudalennau o fis i fis.

Cafwyd llond y lle o geisiadau gwych – rhai cymeriadau wedi eu hysbrydoli gan chwedloniaeth neu hanes yr ardal, eraill yn angenfilod doniol. Bu'r beirniaid – yr artist Elan Rhys a dylunydd Eco'r Wyddfa, Gwyndaf Rowlands o Grid76, yn edrych yn ofalus ar y ceisiadau i gyd cyn dewis enillydd.

Penderfynwyd yn unfrydol mai Elin Enfys, sef arth fach liwgar wedi ei arlunio gan Ana Fflur Owen o Lanrug oedd yn fuddugol. Llongyfarchiadau mawr iawn i Ana!

## Elin Enfys

Fe aeth Ana i ffatri eirth Build y Bear i greu ei thedi hi ei hun a'i enw yw Enfys. Yna wrth weld y gystadleuaeth gan Eco'r Wyddfa yn ystod cyfnod y pandemic, pan roedd yr enfys wedi dod yn symbol o obaith, cafodd Ana y syniad am Elin Enfys wrth edrych ar ei harth fach amryliw.

Mae Gwyndaf Rowlands o gwmni Grid76, dylunydd Eco'r Wyddfa wedi creu fersiwn digidol hyfryd o Elin Enfys ac mae 8 llun o Elin yn gwneud ystumiau gwahanol yn cuddio rhwng straeon rhifyn yma'r Eco. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

## Mwy am Ana

Mae Ana Fflur Owen yn wyth mlwydd oed ac yn ddisgybl ym Mlwyddyn 4 Ysgol Llanrug. Mae hi'n byw yn y pentref gyda'i rhieni a'i brawd bach Macs. Roedd hi'n hapus iawn fod Elin Enfys yn mynd i fod yn gymeriad cudd yn Eco'r Wyddfa ac yn edrych ymlaen at chwilio amdani.

Mae Ana'n falch iawn fod yr ysgol wedi agor eto ar ôl y cyfnod clo ac yn hapus i fod efo'i ffrindiau yn nosbarth Ms Williams. Fe hoffai Ana ddweud helô wrth bawb ym Mlwyddyn 4!

# ECO'r Wyddfa

RHIF 486
Tachwedd 2020



**Swyddogion a Gohebwyr**
Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

Golygydd Chwaraeon
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

Golygydd yr Ifanc
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

Ffotograffwr
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221. glasgoed@hotmail.com

Trefnydd Hysbysebion
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838

Trefnydd Ariannol
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug. 01286 674839.

Trefnydd Gwerthiant Post
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug. 01286 674839.

Trefnydd Bwndelu
Marian Jones. Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 01286 870292.

Trefnydd Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838

**Gohebwyr Pentrefi**
Bethel:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

Brynrefail:
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail. 01286 870580. lowri-prys@supanet.com

Caeathro:
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

Deiniolen:
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

Dinorwig:
Marian Jones. Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 01286 870292.

Llanberis:
Eifion Roberts. Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 675384.
eifionroberts132@btinternet.com

Llanrug:
Eryl Roberts. Peris, 56 Glanffynnon, Llanrug. 01286 675384.

Nant Peris:
Kate Pritchard. 01286 675384.
econantperis@hotmail.com

Penisarwaun:
Katy Williams
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

Waunfawr:
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

gosodwyd gan grid 76 dylunio graffeg 07766956673


## LLYTHYRAU

Hoffai'r rheolwyr ym Mhlas Pengwaith ddiolch i gymuned Llanberis a siopau/busnesau Ardal Arfon am eu cymorth a'u cyfraniad tuag at Gartref Plas Pengwaith yn ystod y cyfnod clo. Hoffwn ddiolch hefyd i staff Plas Pengwaith am eu defosiwn a'u hymroddiad i'w gwaith sydd wedi bod yn heriol iawn.

Mae'r holl garedigrwydd sydd wedi ei ddangos gan gymaint o bobol wedi bod yn syfrdanol ac mae'n gysur mawr i wybod bod cymaint yn barod i fod o gymorth mewn amseroedd anodd.

Diolch yn fawr iawn i chwi gyd.

Lorraine Powell (Rheolwr) Sandra Lewis (Rheolwr Cynorthwyol)

---

I holl weithwyr allweddol Bro'r Eco

Ar ran Eco'r Wyddfa, mae ein diolch yn enfawr i'r holl weithwyr allweddol sydd wedi cynnal ein cymdeithas dros y misoedd hir ers i Covid-19 ddod i darfu ar bob agwedd o'n bywydau.

Mae'n sobor o beth ei bod hi wedi cymryd pandemig byd eang i'r wlad ddechrau sylweddoli pwy o ddifri yw'r 'gweithwyr allweddol' – staff gwasnaethau iechyd lleol, athrawon, glanhawyr, gweithwyr siopau bwyd neu garej, gyrwyr trafnidiaeth gyhoeddus, y Gwasanaeth Post, gweithwyr elusenau, ymgymerwyr, ffermwyr, heddlu a'r gwasanaeth tân, gweithwyr casglu gwastraff, a llawer llawer mwy.

Rhaid i ni beidio drysu 'allweddol' efo 'pwysig' neu 'lwyddiannus', a chofio am gyfraniad 'allweddol' y rhai sy'n cadw'r gweddill ohonom yn fyw, yn iach ac yn ddiogel.

Criw Golygyddol Eco'r Wyddfa.

## RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£100 Di-enw, Llanberis

£50 Er cof am Clifford Davies, Llanberis

£40 E Bedford, Pant Afon Bach, Llanrug

£25 Menna Williams, Minffordd Farm, Llanrug

£20 Er cof am Bill Bailey, Arthon, Bethel gan y teulu

£20 Mrs S Jones

£20 Er cof am Maldwyn Jones, Bryn Heli, gyda diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt fel teulu yn eu profedigaeth. Diolch am y rhoddion tuag at Ambiwlans Awyr Cymru.

£10 Eluned Jones

£10 Iris Rees Jones, 9 Hafan Elan, Llanrug

£10 Helen Munro, Cynan, Penrallt, Llanrug

## Argraffu a'i peidio, dyna ydi'r cwestiwn?

Gair gan Tony Elliott, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eco'r Wyddfa

Annwyl ddarllenwyr a chyfeilion yr Eco,

Pleser o'r mwyaf yw cael cyflwyno rhifyn mis Medi o'r Eco i'ch sylw. Dyma'r rhifyn cyntaf i ymddangos ers rhifyn Mawrth. Hoffwn ddiolch yn fawr i'm cydweithwyr ar Banel Golygyddol yr Eco am eu hymroddiad, eu dyfalbarhad a'u gwaith trylwyr wrth gael y rhifyn hwn yn barod ar eich cyfer. Rwyf hefyd yn dymuno cydnabod cydweithrediad a chefnogaeth fy nghyd-aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn ystod y cyfnod anodd a heriol hwn sydd yn dal i daflu cysgod tywyll dros ein bywydau.

Rhaid nodi mai fersiwn digidol yw'r rhifyn hwn, ac mae'n bosib mai fersiwn digidol fydd ar gael yn ystod y misoedd nesaf hefyd gan fod dosbarthu fersiwn papur yn anodd yn ystod y pandemig. Rwyf yn gwerthfawrogi y bydd hyn yn siom i nifer, ond gallaf eich sicrhau bod cael fersiwn papur yn ôl yn eich dwylo yn flaenoriaeth gennym. Gydag ail don o Cofid-19 yn fygythiad real fodd bynnag, nid ydym yn barod i beryglu ein tîm o weithwyr gwirfoddol, nac ychwaith unrhyw un o'n darllenwyr a'n cyfeillion.

Diolch am eich cefnogaeth,
Tony Elliott

browyddfa360

Gyda'r Eco ar gael ar-lein yn unig am y tro felly, mae yna ddigon o wahanol gyfleoedd i gael mynediad at y papur. Os ydych yn darllen hwn, rydych eisoes wedi defnyddio un o'r safleoedd isod!

ecorwyddfa.co.uk

browyddfa360.cymru

Dyma gais felly i ofyn i chi sôn wrth eraill nad ydynt, efallai, yn gwybod sut i ddarllen yr Eco ar hyn o bryd. Mi fydd pytiau o newyddion a gwybodaeth hefyd yn cael eu rhannu drwy ein cyfrif Facebook - facebook.com/Ecor-Wyddfa. Os ydych chi'n newydd i Facebook, cliciwch 'like/hoffi', sef y bawd bach glas sydd ar y dudalen, ac wedyn fe fyddwch yn derbyn yr holl newyddion a gwybodaeth ddiweddaraf.

Mae'n ddrwg iawn ganddon ni nad ydyn ni wedi gallu cysylltu â phob cyfranwr cyson ar gyfer y rhifyn cyntaf hwn o Eco'r Wyddfa dan ein gofal. Byddem yn falch iawn pe tasech chi'n gallu cysylltu â ni ar ecorwyddfa@gmail.com ar gyfer cyfraniadau yn y dyfodol.

Byddwn yn cyhoeddi beth yw dyddiad cau derbyn eitemau i rifyn nesaf Eco'r Wyddfa drwy'r cyfryngau cymdeithasol a BroWyddfa360. Os oes ganddoch chi syniad am eitem ar gyfer yr Eco neu yr hoffech helpu i roi'r papur at ei gilydd, fe fyddem yn falch iawn o glywed ganddoch chi.

# Calon Fawr Côr Cofnod

Canu, cymdeithasu a chasglu arian at elusennau lleol yw dileit aelodau côr merched, Côr Cofnod, oedd yn arfer cyfarfod yn wythnosol yn Y Galeri i ymarfer efo Deilwen Hughes, Bethel, yn arwain. Yn anffodus, daeth Covid-19 i roi taw ar y canu dros dro.

Fodd bynnag, o fewn dyddiau i'r Clo Mawr gychwyn ddiwedd mis Mawrth, ar ôl clywed y byddai rhai o weithwyr yr NHS yn falch o fagiau defnydd i roi eu dillad gwaith ynddyn nhw ar ddiwedd shifft i'w rhoi yn syth yn y peiriant golchi ar ôl cyrraedd adref, roedd y côr wedi cyflwyno dros wyth gant o fagiau i feddygfeydd, clinigau ac ysbytai lleol.

Wrth gwrs, mae nosweithiau Iau wedi bod yn teimlo'n rhyfedd iawn i aelodau'r côr ers misoedd rŵan - dim dod at ei gilydd i forio canu yn y Galeri, dim sgwrsio am hydoedd a chael hwyl efo ffrindiau, dim diddanu cymdeithasau nac ymwelwyr, dim paratoi at ein cyngerdd mawreddog nac edrych ymlaen at drosglwyddo arian i goffrau elusennau o'n dewis.



*Deilwen Hughes (arweinydd Côr Cofnod), Annwen Jones (ysgrifennydd) a Trey McCain, sydd yn cymryd drosodd fel rheolwr y Banc Bwyd ddechrau Tachwedd.*

Fodd bynnag, er gwaetha'r nosweithiau diflas o achos Y Clo Mawr mae'r côr wedi penderfynu cyflwyno siec o £500 i'r Banc Bwyd yng Nghaernarfon sydd wedi gweithio mor galed i helpu teuluoedd yr ardal ar amser mor helbulus.

## Yn ystod y misoedd aeth heibio...

• Y Cloi. Doedd y feirws ddim yn debygol o effeithio arnom ni ym Mhrydain. Roedd y Prif Weinidog yn ymffrostio yn y ffaith ei fod yn ymweld ag ysbytai ac yn ysgwyd llaw efo cleifion gyda'r coronafeirws. Roedd yn hwyr ar y Llywodraeth yn penderfynu dod â chyfyngiadau i rym i geisio achub y sefyllfa. O fewn dim roedd y Prif Weinidog yn ymladd am ei fywyd mewn Uned Gofal Dwys. Doedd pawb ddim yn cydymffurfio â'r rheolau, a phenderfynodd ambell un deithio cannoedd o filltiroedd i Barnard Castle i brofi ei olwg. Roedd 'ynysu' yn golygu symud i ail gartref ar Ynys Môn i un aelod seneddol Ceidwadol, tra'n parhau i ymweld â'i etholaeth yn Swydd Gaerhirfryn. Buan iawn y sylweddolwyd mai rheolau ar gyfer y bobl bach gyffredin oedd y rhain, ac nid ar gyfer y rhai a'u rhoes mewn grym.

• Dilyw. Nid dŵr, ond dilyw o ymwelwyr di-hid gan mwyaf, yn boddi pentref Llanberis ac ardal yr Allt ddu yn Ninorwig – y penwythnos cyn Y Cloi, ac wedyn pan ddechreuwyd llacio'r rheolau. A doedd y mwyafrif ohonynt erioed wedi sylweddoli beth oedd pwrpas bin sbwriel. Yn y cyfamser.........

• Llygredd. Pe bai lefelau llygredd aer yn cael eu gostwng ym Mhrydain i'r lefelau a argymhellir gan y WHO, byddai 17,000 o fywydau y flwyddyn yn cael eu harbed.

• Difodiant. Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd gan y WWF mae dros filiwn o rywogaethau naturiol dan fygythiad, a gellir eu colli am byth.

• Dail crin. Yn ôl Donald Trump, gormodedd ohonynt wedi casglu ar hyd lloriau coedwigoedd yn Califfornia ac Oregon fu'r achos am y tân difaol a sgubodd drwy'r taleithiau a gorfodi rhai miloedd o bobl i adael eu cartrefi ac eraill i golli eu bywydau.

• Rhagrith. Mae gan y Swyddfa Dramor restr o ddeg ar hugain o wledydd y byd sy'n cael eu cyhuddo o fod y rhai gwaethaf am anwybyddu hawliau dynol eu dinasyddion. Mae ystadegau'n dangos fod Prydain wedi paratoi addysg ac ymarfer milwrol i luoedd arfog mwy na hanner y gwledydd hyn, gan gynnwys Belarus, Saudi Arabia, Uzbekistan a Bahrain.

• Tywydd. Yn ôl y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol mae'r hydref wedi cyrraedd bron i ddeufis yn gynt nac arfer mewn rhai rhannau o'r wlad, a hynny o ganlyniad i batrwm y tywydd dros y misoedd diwethaf.

• Plastig. Dangosodd ymchwil diweddar y gall 45 biliwn eitem o blastig gael ei dynnu allan o'ch basged siopa yn ystod y pum mlynedd nesaf. A fydd eich neges yn rhatach sy'n gwestiwn arall.

• Ymarfer corfforol. Mae'r cof a'r gallu i ganolbwyntio yn gwella'n sylweddol am ddwyawr wedi ymarfer sy'n cynnwys beicio, rhedeg neu gerdded cyflym. Dyna ganlyniad tîm o ymchwilwyr yn Sweden a fu'n eistedd mewn swyddfa yn dadansoddi'r canlyniadau.

• Hela. Wythnos cyn yr Ail Gloi, y Llywodraeth Llundeinig yn penderfynu fod hawl i bobl ymgynnull i saethu grugieir a hela ceirw, ond yn parhau i gyfyngu'r nifer gai fynychu priodasau ac angladdau. Dros 150 yn cyfarfod i ddilyn y Devon and Somerset Staghounds heb fath o gadw pellter cymdeithasol. Tybed pam fod y rhain wedi cael £10,000 o gymhorthdal dros gyfnod Y Cloi, yn ogystal a benthyciad o £50,000. Dim ond i hela?

• Arian. Penderfynu na fydd mwy o ddarnau arian £2 a 2 geiniog yn cael eu bathu am o leiaf ddeng mlynedd.

• Parciau Cenedlaethol. Na, nid rhai Cymru na gweddill Prydain, ond rhai Zimbabwe. Mae'r wlad honno wedi gwahardd unrhyw fath o gloddio am fineralau ym mhob un o'u Parciau Cenedlaethol. Maent am warchod y 40,000 o eliffantod a'r rhinoceros du prin sy'n byw ynddynt.

• Bywyd Arall-fydol. Mae nwy o'r enw phosphine (sy'n ogleuo fel carthion pengwin) wedi ei ddarganfod ar blaned Fenws, a hynny'n awgrymu fod bywyd yn bresennol yno ar ffurf meicrobau.

• ....... a daeth Yr Ail Gloi – am chwe mis. Wel, bron iawn, gan fod cil y drws wedi ei adael ar agor. Tafarnau a bwytai yn cael aros ar agor hyd ddeg y nos, a pherffaith ryddid i unrhyw un fynd ar wyliau – er mwyn achub yr economi. Ac i brofi nad yw cadw at y rheolau mor bwysig a hynny, penderfynodd y Llywodraeth eu bod am dorri cyfraith ryngwladol; cytundeb a arwyddwyd ganddynt gyda'r Undeb Ewropeaidd lai na blwyddyn yn ôl.

• Tri Mis. Llai na hynny tan y Nadolig. Ond wrth gwrs, fydd yna ddim Nadolig arferol er fod Boris wedi addo 'normalrwydd' erbyn hynny. Ac o fewn wythnos i golli'r Nadolig byddwn hefyd yn colli ein hawliau Ewropeaidd: yr hawl i deithio'n ddi-lyffethair i 27 o wledydd, a'r hawl i sylw meddygol am ddim yn unrhyw un o'r 27 hynny. Colled fechan iawn o gysidro y cawn ni i gyd basport o liw gwahanol.

# Cynllun Efe

Bu'r misoedd diwethaf yn heriol i bawb ohonom, yn y fro hon fel yng ngweddill y wlad. Oherwydd y Cloi Mewn a orfodwyd arnom ddiwedd Mawrth ac a barodd am wythnosau, amharwyd ar weithgareddau busnesau, siopau, ysbytai, ysgolion, colegau a chymdeithasau o bob math. Mae'n anodd meddwl am unrhyw beth nac unrhyw un na throwyd eu byd ben i waered oherwydd Covid-19. Fel pawb a phopeth arall, gwelodd aelodau eglwysig newid mawr, ac am fisoedd nid oedd modd cynnal oedfa nac unrhyw gyfarfod arall o fewn y capeli a'r eglwysi. Bu raid i'r eglwysi a'r capeli, fel pob sefydliad arall, addasu gorau medrent.

Yn amlwg, wynebai Cynllun Efe her fawr unwaith y daeth y Cloi Mewn. Penderfynodd Ymddiriedolwyr yr elusen wneud pob ymdrech i barhau ei waith cenhadol, er y byddai'n rhaid meddwl ar unwaith am ffyrdd gwahanol o wneud hynny. Penderfynwyd na fyddem yn gwneud cais i roi ein Gweithiwr Plant ac Ieuenctid a Theuluoedd ar Gynllun Cynnal Swyddi'r Llywodraeth. Roedd Cynllun Efe a Chapel Caersalem, Caernarfon sy'n cydweithio â ni, ac yn derbyn gwasanaeth Susan Williams, ein Gweithiwr, am ran o'r wythnos yn gytûn y gellid addasu'r gwaith.

Ac felly, o ddiwedd Mawrth hyd ddiwedd Gorffennaf, gan fod y capeli a'r ysgolion ynghau, bu Susan yn cynnal gwahanol gyfarfodydd gan gynnwys Ysgol Sul a CIC ar-lein, yn bennaf trwy gyfrwng Zoom. Bu Susan hefyd yn cydweithio ag eraill i ddarparu pecynnau o wersi a gweithgareddau ar gyfer plant, ac yn eu dosbarthu i blant a theuluoedd yr eglwysi a'r ysgolion Sul a'r clybiau, i'w gwneud gartref gan y plant. Gwnaed cryn ddefnydd o'r pecynnau hynny yn lleol ac ar draws y wlad. Trwy'r ffôn a'r cyfryngau cymdeithasol, bu Susan hefyd mewn cyswllt cyson ag amryw o bobl yr arferai eu gweld wrth ei gwaith.

Wedi cyfnod o wyliau ym mis Awst, mae Susan wedi ail afael yn ei gwaith. Am y tro, bydd rhaid i'r gwaith hwnnw ddilyn patrwm y misoedd diwethaf gan nad oes modd, hyd yma beth bynnag, ail ddechrau cynnal gweithgareddau yn y capeli. Gofidiwn hefyd na fydd modd i Susan ymweld â'r ysgolion am y tro chwaith.

Mae un newid o bwys ers dechrau Medi. Mae Susan am y tro wedi cwtogi ei horiau gwaith; a thros yr wythnosau nesaf beth bynnag bydd yn gweithio dau ddiwrnod yr wythnos i Gynllun Efe a diwrnod i Gaersalem.

# Straeon lleol, hanes, barn, chwaraeon a'r diweddaraf o Fro'r Wyddfa – i gyd ar-lein mewn un man


browyddfa360

Ym mis Mawrth eleni lansiwyd gwefan newydd yn arbennig ar gyfer straeon milltir sgwâr dyffrynnoedd Peris a Gwyrfai. Mae gwefan www.BroWyddfa360.cymru yn rhan o gynllun gwefannau Bro360, cynllun gan Golwg i greu gwefannau newyddion cyfrwng Cymraeg i wahanol fröydd yn Arfon a Cheredigion. Mae'n brosiect sydd wedi mynd rhagddi ers rhai blynyddoedd bellach, gyda chriw o wirfoddolwyr yn cydweithio gyda Lowri, Cydlynydd y prosiect a Guto, Ysgogydd Bro360 yn Arfon yn gynyddol yn ystod 2019.

Roedd hi'n braf iawn felly i weld y wefan fro yn fyw fel oedd ein bywydau yn troi'n fwyfwy digidol. Hoffa griw Eco'r Wyddfa ddiolch am fodolaeth y wefan er mwyn cyhoeddi eitemau o rifyn Ebrill y papur, nad aeth i brint oherwydd y cyfyngiadau. Roedd hi'n braf gallu rhannu'r eitemau difyr gyda chi ddarllenwyr, yn golofnau a newyddion pentref, er nad oedd yn bosib ei wneud yn y ffurf arferol. Mae Eco'r Wyddfa ond yn un o'r cyfrifon sy'n cyfrannu at wefan BroWyddfa360. Mae'r wefan yn agored i fudiadau, cymdeithasau ac unigolion i bostio newyddion a storïau ar ffurf testun, llun, fideo a sain, sy'n sicrhau amrywiaeth straeon a lleisiau gan roi safbwyntiau newydd i ni o'r fro.

Mae rhai o uchafbwyntiau'r wefan yn cynnwys monolog 'Weli di fi?' pengwin pêl-droed ac erthyglau ar enwau lleoedd Dyffryn Peris gan Glenda Carr.

Hoffech chi gyfrannu? Mae cyfarwyddiadau ar wefan Bro360.cymru ar sut i lwytho stori a diweddariadau.


FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com
Dewis eang o luniau yn yr oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

GERAINT OWEN
CARPEDI

Cil y Mynydd
Waunfawr
Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd
(01286)650552 Symudol - 07712779475
CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR
O BATRYMAU




Mae cyfnod y clo mawr wedi bod yn gyfnod anodd iawn i nifer yn y sector celfyddydau, yn enwedig i'r bobol hynny sy'n ymwneud â pherfformio.

Enw cyfarwydd yn ardal yr Eco ydi Gavin Saynor. Yn wreiddiol o Ddeiniolen, ac wedi byw am gyfnod helaeth yn Llanrug, mae'n adnabyddus iawn fel cerddor o fri ym myd y bandiau prês. Ers cychwyn pan yn 7 oed ym mand ieuenctid Deiniolen, mae Gavin wedi mynd ymlaen i berfformio, cynnal dosbarthiadau meistri, a dysgu offerynnau pres ar draws y byd. Mae ganddo hefyd ffrwd o ddisgyblion dawnus yn derbyn gwersi ganddo yn yr ardal leol, gyda Gavin yn awyddus iawn i roi'r un cyfle i'r ieuenctid ag y cafodd o'n blentyn.

Ers sawl mlynedd bellach mae'n cael ei adnabod fel un o'r chwaraewyr tiwba gorau ym myd y bandiau ac erbyn hyn yn brif diwba ac unawdydd i'r band enwocaf yn y byd, sef band Black Dyke o Swydd Efrog. Gyda'r clo mawr wedi rhoi stop ar y trafaelio i ddysgu, y cyngherddau, a'r ymarferion band ym mhentref Queensbury mae Gavin wedi bod yn addasu. Gan ddefnyddio platfform galwadau fideo ar y we mae Gavin wedi parhau i ddysgu bron bob un o'i ddisgyblion, yn ogystal â chynnal dosbarthiadau meistr i nifer o fandiau a chymdeithasau bandiau pres. Dros y cyfnod mae hefyd wedi bod yn profi sawl mouthpiece ar gyfer cwmnïau gwahanol, gan ddefnyddio ei brofiad helaeth i roi ei farn ar sut i'w gwella. Daeth cydnabyddiaeth pellach i dalent ac enw da Gavin yn ddiweddar pan ofynnodd i gwmni offerynnau Geneva iddo fod yn Artist Perfformio a Datblygu ar gyfer eu hofferynnau tiwba. Ystyrir Geneva fel un o'r gwneuthurwyr offerynnau pres gorau sy'n denu sawl chwaraewr o fri ar draws y byd. Yn ei rôl newydd bydd Gavin yn datblygu offerynnau a pherfformio ar offerynnau'r cwmni. Bydd hefyd yn parhau i hyrwyddo bandiau ac offerynnau pres drwy ei ddysgu a pherfformio. Mae Gavin yn hynod falch o'r ymrwymiad a'r parch mae'r cwmni wedi ei ddangos i'r iaith Gymraeg, gyda Geneva yn rhyddhau cyhoeddusrwydd a datganiadau i'r wasg yn y Gymraeg yn gyntaf. Golyga hyn bod yr iaith Gymraeg wedi cael sylw mewn cyfryngau cerdd ar draws y byd a thrwy hynny wedi cyflwyno'r Gymraeg i gynulleidfa newydd, na fyddai o bosib, yn gyfarwydd ohoni.

Yn hynod o falch o'r cyfleoedd a phrofiadau y mae wedi ei gael drwy gerddoriaeth mae Gavin yn ddiolchgar iawn i'r rhai hynny a'i cefnogodd, ac sy'n parhau i'w gefnogi, drwy ei yrfa. Diolch arbennig yn mynd i'r diweddar Hefin Goronwy Jones (Glan Ffynnon, Llanrug) oedd yn gyfrifol am ddatblygu talent ifanc Band Deiniolen am flynyddoedd lawer.




**Hywel Williams**
Aelod Seneddol

# CYMORTHFEYDD

Os oes gennych unrhyw fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **Aelod Seneddol** neu **Aelod Cynulliad** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch â'r swyddfa ym Mangor a Chaernarfon.



**Siân Gwenllian**
Aelod Cynulliad

**Swyddfa Etholaeth Caernarfon**
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672 076

**Swyddfa Etholaeth Bangor**
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372 948

**hywel.williams.mp@parliament.uk**
**@HywelPlaidCymru**
**HywelWilliams AS/MP**

**sian.gwenllian@cynulliad.cymru**
**@siangwenfelin**
**SiânGwenllian AC/AM**

*yn gweithio'n galed dros bobl Arfon*

# Pen-blwydd 21ain Hapus Tai Fron Haul

Ar yr 28ain o Orffennaf 1999 roedd llond y lle yn Amgueddfa Lechi Llanberis yn croesawu agoriad swyddogol rhes o dai Fron Haul. Un mlynedd ar hugain yn ddiweddarach bu'n rhaid gwneud y gorau o'r cyfyngiadau Covid-19 a chynnal diwrnod dyfeisgar o ddathliadau ar-lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Fron Haul yw'r rhes teras o bedwar tŷ chwarelwr yn yr Amgueddfa Lechi a symudwyd fesul carreg a llechen o'u lleoliad gwreiddiol yn Nhanygrisiau. Yn ôl yn 1999 cafodd pob bricsen, carreg, llechen, ffenestr-paen a drws eu rhifo'n unigol, eu datgymalu a'u symud yn ofalus i Lanberis, er mwyn i'r teras cyfan gael ei ail-adeiladu i ddangos bywydau cartref chwarelwyr i ymwelwyr.

Yn debyg i res tai Rhyd-y-car sy'n Amgueddfa Werin Sain Ffagan, mae Fron Haul wedi ei ddodrefnu i adlewyrchu gwahanol gyfnodau allweddol yn hanes y diwydiant llechi yng ngogledd Cymru – pan oedd y diwydiant ar ei anterth yn Nhanygrisiau yn 1861, Bethesda yn ystod streic fawr y Penrhyn yn 1901 a Llanberis yn 1969, pan gaeodd chwarel Dinorwig. Mae'r pedwerydd tŷ yn ganolfan rhyngweithiol i blant a theuluoedd. Gyda'r Amgueddfa yn amcangyfri bod tua dwy filiwn a hanner o bobl wedi bod drwy'r tai ers 1999, maent wedi dod â hanes yn fyw i genedlaethau heddiw.

Mae'r ffilm 'Straeon yn y Meini' wedi ei harddangos yn y pedwerydd tŷ ers 1999 ond mae hi ar gael yn ddigidol bellach ar wefan yr Amgueddfa drwy ddilyn y ddolen yma –



https://amgueddfa.cymru/blog/2020-05-28/Ffilm-Straeon-yn-y-Meini/?_ga=2.158624188.702163295.1595844868-934247517.1584536562

Tybed ydych chi, neu rhywun ydych chi'n ei 'nabod, yn y ffilm?!

"Mae'r teras cyfan yn adlewyrchu'r newid ym mywydau a ffasiynau'r chwarelwyr a'u teuluoedd, ' meddai Dr Dafydd Roberts, ceidwad yr Amgueddfa. "Mae Fron Haul wedi bod yn un o'r prosiectau pwysicaf erioed i gael ei gynnal yn yr amgueddfa yn Llanberis, wedi'i wneud yn bosibl gan un o grantiau cyntaf Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar y pryd. Mae wedi cynnig profiad unigryw i bobl leol ac ymwelwyr, ac wedi dod yn un o'r rhannau pwysicaf a mwyaf poblogaidd o ymweliad â'r amgueddfa.

Roedd dathliadau pen-blwydd 21ain oed Fron Haul yn gyfle gwych i genhedlaeth ifanc 2020 ymateb a dehongli, yn rhithiol, yr hyn mae Fron Haul yn ei olygu heddiw. Un o'r rhain oedd Lleucu Gwenllian, artist llawrydd o Ffestiniog (gallwch weld mwy o'i gwaith ar ei chyfri instagram @studio.lleucu).

"Un o'r pethau wnaeth neidio allan ata'i oedd y creiriau bach yn y tai yn yr amgueddfa. Roedd 'na rywbeth amdanyn nhw yn dal fy nychymyg, a roeddwn i'n ffeindio fy hun yn dychmygu trigolion y tai yn dewis yr addurniadau, yn tynnu'r llwch oddi arnyn nhw, yn eu trefnu ac ail-drefnu, ac yn y blaen. Roeddwn i'n eu gweld nhw'n debyg i ambell i beth o dai fy neiniau a nheidiau i – roedd y ci bach serameg yn benodol yn fy atgoffa o gŵn sydd gan Nain ar ei dresal, a'r hen gloc yn debyg ofnadwy i gloc fy hen daid."



Y creiriau bach yn rhif 1 Fron Haul, sydd wedi ei ddodrefnu i adlewyrchu tŷ yn Llanberis yn 1969, wnaeth ddal sylw Lleucu. Fedrwch chi ddarganfod y ffôn melyn a'r doliau Rwsaidd yn y ffotograff? Marciau llawn os fedr rhywun weld record Hogia'r Wyddfa!

1. Old Trafford ( Manceinion) a Bowlen Aegeas ( Southampton)
2. Mae gwestai ynghlwm â'r mey sydd ble gallai'r chwaraewyr ynysu.
3. Malta ( Bala) ac Ynysoedd y Faroe ( Seintiau Newydd)
4. Y Dreigiau
5. Dominic Thiem ( Awstria)
6. Amazon Prime
7. Mitchell Stark
8. Snwcer
9. Y Fflint a Hwlffordd
10. Connor Roberts a Neco Williams.

# Fron Haul

Gwelodd Eryri oes aur y llechi.
Trawsnewid y werin o gaib i gŷn.
Yn nyffryn ‘Stradau, rhesi o feini,
Ymlusga’r rhimyn â‘r graig gyferbyn.
Enfawr fu’r chwyldro, ergyd fu’r chwalfa,
Dirywiad diwydiant, mwy na’i dyfiant.
Tawelwch. Y baracs fu’n segura.
Difrod gan ddwylo diarth, llechfeddiant.
Cyflawni lladrad absen fel llwynog,
Sleifio’n llechwraidd a dwyn o’r Gorlan.
A glaw fu’n llifo o’r llechwedd creigiog,
Trueni mai hyn fu tranc y drigfan.
Rhaid gwarchod ein treftadaeth, mae’n drysor,
Neu diflannu wna, fel llong heb angor.


Daw cyfnod du i darfu – gwêl golau.
Geiriau gobeithiol gŵr gwydn; Elfyn.
Parhau i drigo’r tai mae eneidiau.
Drws llonydd ddaw a cartref i’w derfyn.
Datgymalwyd hwy, cymerwyd sawl dydd
A’u gweddnewid nes nad oedd hoel o draul.
Er yr ail-gartrefwyd yr aelwydydd,
Disgleiriau edefyn ar dir Fron Haul.
Wrth feddwl am y teuluoedd hynny,
Mae cysylltiad wrth gyffwrdd y meini.
A nghefn at y drws, edrychaf fyny
Ar olygfa gyfarwydd o lechi.
Er fod pellter i gyrraedd Llyn Padarn,
Mi wn y saif y pedwar yn gadarn.

Mirain Rhisiart

(Hawlfraint Mirain Rhisiart & Amgueddfa Cymru)

*Newyddion da (pan gyhoeddwyd yr Eco beth bynnag!) yw bod yr Amgueddfa Lechi wedi ail-agor i’r cyhoedd. Er fod mynediad yn parhau am ddim, mae’n rhaid i chi archebu tocyn o flaen llaw drwy wefan yr Amgueddfa - https://amgueddfa.cymru/llechi/ Bydd tocynnau yn cael eu rhyddhau yn wythnosol ar ddydd Mercher ar gyfer ymweliadau ar y dydd Sul, Llun, Mercher a Iau canlynol.*



# Y diweddaraf o'r Antur

Antur Waunfawr

Mae'r cyfnod Coronafirws wedi bod yn anodd i bawb, ond i rai oedolion ag anableddau dysgu mae wedi bod yn gyfnod heriol ofnadwy.

Mae Antur Waunfawr yn cefnogi dros 70 o unigolion ag anableddau dysgu, a thrwy gydol y pandemig rydym wedi bod yn parhau i gefnogi rhai o'r oedolion mwyaf bregus yn ein cymuned. Er bod rhai unigolion wedi bod yn hunan-ynysu adref gyda'u teuluoedd neu ofalwyr, parhaodd eraill i dderbyn cymorth cartref neu wasanaeth dydd gan staff ymroddedig Antur Waunfawr.



*Anwen Fletcher a Peter Thomas wedi mwynhau pobi bisgedi wrth dderbyn cefnogaeth yn y tŷ.*

Wrth i siopau a bwytai ailagor, ac wrth i fesurau cloi gael eu lleddfu, mae llawer ohonom nawr wedi bod yn dod i arfer â'r "normal newydd". Fel gweithwyr allweddol, mae Antur Waunfawr wedi parhau i weithredu trwy gydol y broses gloi, er mewn ffordd ychydig yn wahanol.

Yn Waunfawr, mae ein caffi, ein siop grefftau a'n tiroedd yn parhau i fod ar gau i'r cyhoedd, fel y gallwn gadw staff ac unigolion ar y safle yn ddiogel, ond mae yna lawer o waith yn parhau ar y safle.

Mae Caffi Blas y Waun wedi bod yn darparu a danfon prydau bwyd i bobl hŷn neu fregus ym mhentref Waunfawr. Pris y prydau bwyd yw £3.50 sy'n cynnwys danfon, ac os ydych chi'n adnabod rhywun yn y pentref fysai'n cael budd o'r gwasanaeth yma plîs cysylltwch, caffi@anturwaunfawr.cymru.



*Melfyn Parry a David John Evans yn gweithio ar brosiect 'Pecynnau Dechrau' yn y Warws Werdd.*

Mae gwaith yn parhau yn ein gerddi a'n gardd lysiau, mae'r tîm wedi bod yn brysur iawn yn tyfu a chynaeafu ffrwythau a llysiau i'w defnyddio yn ein tai, gan gynnwys tatws, moron, mefus, nionod, letys a garlleg. Yn ddiweddar fe wnaethant godi 38kg o nionod! Mae'r tîm hefyd wedi bod yn treialu dipyn o syniadau newydd ar gyfer ein cynnyrch, a'r ffefryn hyd yn hyn yw'r cordial cyrens duon cartref.



*Sion Jones a Daniel Williams gyda chynnyrch wedi'i gasglu o'r ardd lysiau yn Waunfawr.*

Mae'r broses cynhyrchu seidr a sudd afal Perllan y Fro wedi ail-gychwyn, os oes gennych chi ormod o afalau ar eich coeden afal dewch â nhw draw i safle Warws Werdd ar ystâd Cibyn yng Nghaernarfon. Mae cratiau tu allan i'r drws ffrynt er mwyn i chi eu gadael nhw yno i ni! Mae'r arian a godir drwy werthu'r cynnyrch yn mynd tuag at ariannu ein prosiectau sy'n darparu gwaith i oedolion ag anableddau dysgu.

Mae'r Warws Werdd, ein prosiect ailddefnyddio dodrefn a dillad ail-law ar gau i'r cyhoedd ar hyn o bryd, ond mae cynnydd mawr wedi bod yn y nifer o ddillad a gasglwyd gan fanciau cymunedol yn yr ardal. Mae'r dillad wedyn yn cael eu casglu gan fasnachwr dillad 'Roberts Recycling' a'r Antur yn cael eu talu am bob tunnell sy'n cael ei ailgylchu.

Nid ydym yn casglu na gwerthu dodrefn ail-law i'r cyhoedd ar hyn o bryd, ond rydym yn cydweithio gyda sefydliadau megis Adra a'r Cyngor er mwyn paratoi 'Pecynnau Dechrau' i deuluoedd mewn angen. Mae siop Ebay wedi'i sefydlu i gychwyn gwerthu ar-lein dros y misoedd nesaf.

Mae ein gwasanaeth Llarpio Antur, sy'n darparu gwasanaeth llarpio papur cyfrinachol i fusnesau a chartrefi ar draws Gogledd Cymru, wedi gweithredu trwy gydol y cyfnod cloi i gwsmeriaid allweddol. Gyda swyddfeydd yn ail-agor rydym yn gweld cynnydd eto yn y galw am ein gwasanaeth. Am wybodaeth e-bostiwch llarpio@anturwaunfawr.cymru.

Yn olaf, os ydych chi wedi cerdded ar hyd y ffrynt yng Nghaernarfon, efallai eich bod wedi sylwi ar y gwaith adeiladu sy'n digwydd ar ein safle Beics Antur ym Mhorth yr Aur! Ar ôl oedi byr oherwydd Covid-19, cychwynnodd y gwaith adeiladu eto ym mis Mehefin, ac mae'r safle yn newid yn gyflym! Bydd yr adeilad newydd yn darparu cyfleoedd iechyd a llesiant unigryw i unigolion ag anableddau. Bydd yn gweithredu fel canolbwynt llesiant i'r gymuned leol, gydag ystafell weithgareddau bwrpasol ar gael i'w llogi ar y llawr cyntaf, cyfleusterau hygyrch, yn ogystal ag ystafell synhwyraidd sy'n addas ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu neu nam ar y synhwyrau.

I gael y newyddion diweddaraf am holl waith yr Antur, dilynwch ni ar Facebook, Trydar ac Instagram @AnturWaunfawr neu ewch i'n gwefan, www.anturwaunfawr.cymru

# BETHEL

Dyma rhyw gynnig ar ddatgloi y 'caethiwo' diddiwedd yma. Gyda'r feirws fel petai yn cael ail wynt ac yn nesau fel 'gwynt y dwyrain', chwedl yr hen bobl, gobeithio y gallwn gynnal ein disgyblaeth. Y ddisgyblaeth yma yw ein harf fwyaf. Diolchaf i lawer dros lawer sydd wedi elwa o sawl cymwynas yn ystod y cyfnod yma. Diddorol fuasai gweld ein hymateb i'r hen gwestiwn, "A phwy yw fy nghymydog?" Braf yw cyhoeddi yma ym Methel mai "cymwynas yw cymuned". Cadwch yn iach bob un.

## Perthyn

Dyma enw fydd yn dod yn gyfarwydd i ni yma ym Methel yn y dyfodol agos. Bu cryn bendroni pa ddefnydd ellid ei wneud o adeilad swmpus Y Bedol gynt. Caed sawl si, ac yn wir sawl awgrym. Wel, daeth ymateb positif o'r diwedd drwy obeithion Nia ac Elen, dwy chwaer o'r pentref sydd am agor busnes yno. Rhag i mi wneud cam â'r ddwy cyfeiriaf chwi at wefan ragorol Bethel Ddoe a Heddiw. Yno, mae Gari Wyn yn cynnal cyfweliad cynhwysfawr â'r ddwy am eu syniadaeth, ac yn wir eu gweledigaeth.

Mae positifrwydd y ddwy yn amlwg. Y mae'r Gymru wledig gyfoes yn galw allan am bobl ifanc yn fodlon mentro a chynnal swyddi. Onid ydym wedi'n syfrdanu gan faint o waith awdurdodau sydd bellach sy'n cael ei wneud 'o adref' gan weithwyr gydag ychydig iawn o offer. A ydym yn dod i ddiwedd gweld y swyddfeydd enfawr yma yn llenwi ein trefi? Onid rhain fydd 'fflatiau' y dyfodol i gartrefu ein hieuenctid yn eu cynefin?

Cadwch lygaid felly ar agoriad swyddogol Perthyn. Wrth ddymuno'n dda i Nia ac Elen gobeithio bydd y pentref a'r ardal yn eu cefnogi. Efallai mae'r gymwynas fwyaf yw rhoi 'man cyfarfod' i'r pentref – o fewn unrhyw gyfyngiadau a rheolau, wrth gwrs. Mae'n siŵr y buasai'r geiriau 'sgwrs' a 'chyfarfod' ymysg yr atebion mwyaf cyffredin i'r cwestiwn,"Beth ydych yn ei fethu fwyaf?"

## Lôn Beicio

Mae llawer yn y pentref wedi troi at weithgareddau iach yn ystod y cyfnod clo – cerdded, beicio a rhedeg. Daeth cerdded y llwybrau – ac mae digon ohonynt – yn weithgaredd poblogaidd. Diolch i Gareth a Rhian Hughes cawsom weld ambell fideo ar y cyfryngau cymdeithasol i'n tywys ar hyd llwybrau'r fro. Diolch iddynt am hyn. Bydd hefyd yn gymorth mawr i'r Cyngor Cymuned wrth drafod cyflwr rhai o'r llwybrau. Mae eraill wedi canmol y map gwych a gynhyrchwyd gan Gareth Roberts rhai blynyddoedd yn ôl bellach fel gwybodaeth werthfawr. Mae eraill wedi trafod y syniad o sefydlu Clwb Cerdded.

Cyhoeddodd y Cyng. Sion Jones yn ddiweddar fod y grantiau angenrheidiol wedi eu pasio ar gyfer creu Lôn Feicio o Gaernarfon i Fethel. Newyddion gwych a diolch i Sion am frwydro dros y prosiect yma cyhyd. Efallai bydd ein cyfoedion yn Nyffryn Peris yn gweld hyn yn gam – neu bedal – gyntaf i greu Lôn Peris, yr unig ardal heb lôn feicio benodol yn yr ardal bellach. Rwy'n siŵr y buasai'n well gweld beiciau wedi eu parcio yn hytrach na cheir drifflith drafflith dros y fro.

## Oedfaon

Yn dilyn cyfarfod o Swyddogion Capel y Cysegr penderfynwyd cynnal oedfaon yn y capel ar Suliau penodol y Gweinidog. Y bwriad os yn bosibl yw cynnal yr oedfa gyntaf ar fore Sul, Hydref 18ed. am 10a.m.

## Dymuniadau

Bu tipyn o fynd a dod rhwng yr ysbytai dros y cyfnod. Braf croesawu Elisabeth, Blaen Parc, yn ôl i'n plith. Yr un modd braf nodi fod Gareth Griffiths, Stad Eryri, wedi gwella. Danfonwn ein dymuniadau gorau i Vera Davies, Stad y Ddôl, hithau wedi cael cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Maddeued i mi os rwyf wedi bod yn fyr o gyfeiriadau – nid yw'r system trosglwyddo newyddion mor llyfn ag arfer bellach.

## Chwaraeon

Braf gweld ar ambell noson, y plant lleiaf yn derbyn hyfforddiant ar y cae pêl-droed. Gobeithio y cânt y caniatâd i chwarae gemau yn y dyfodol agos. Mewn pentref mor 'fawr' colled enfawr yw methu clywed sŵn plant.

## Apêl

Nid oes unrhyw amheuaeth y bydd pentref Bethel yn wahanol mewn sawl agwedd pan ddaw 'yr haul ar fryn'. Bydd patrymau gwaith llawer yn newid. Beth fydd sefyllfa ein cymdeithasau? A yw aros yn tŷ yn dod yn norm bellach? Pwy fydd yn cynnal neu ysbrydoli y cymdeithasau, clybiau, sefydliadau hynny? A fydd unrhyw fanteision o'r cyfnod clo? Beth yw ein gweledigaeth ni o ddyfodol y pentref? Ai egin fydd sefydlu Perthyn, fydd yn symbyliad i eraill, neu a ydym am aros yn hunanol a gadael i eraill weithio drosom. 'Fe ddown ni os drefni di."

Gwnaf apêl daer felly ar i un ohonoch roddi eich henw ymlaen i lenwi y sedd wag ar y Cyngor Cymuned. Ni allaf gredu mewn pentref o'r maint yma nad oes Un person yn fodlon dod ymlaen i gefnogi y tri presennol. Os oes ymgeisydd gallwch gysylltu gyda Gareth Griffiths, Jane Tŷ Mawr neu minnau. Mae'r cyngor wedi cyfarfod dros Zoom, ac wedi delio gyda'r amryw geisiadau cynllunio. Fe gynhelir y Cyfarfod Blynyddol y mis yma. Bydd y rheolau parthed y ceisiadau am roddion yn aros. Yn amlwg, bydd rhaid trafod yr agwedd yma. Mae sawl cymdeithas heb gyfarfod ac felly heb dreuliau. Mae eraill fel Neuaddau Pentref yn dal i wynebu costau cynnal a chadw er cyn lleied y defnydd. Gyrrwch eich ceisiadau i'r Clerc mor fuan â phosibl.

## Y Dyfodol

Y rhifyn digidol yma fydd y rhifyn cyntaf o dan y Bwrdd Golygyddol newydd. Ni wyddys hyd yn hyn pryd y byddwn yn dychwelyd i'r hen drefn o gyhoeddi papur yr Eco. I'r rhai ohonoch sydd wedi tanysgrifio am y flwyddyn yna bydd y taliad yn cychwyn o'r mis penodol hwnnw. Boed yn ddigidol neu bapur danfonwch eich newyddion pentref i mi fel arfer.

# Croeso Adra i Hari

Efallai i chi weld ar y teledu rai misoedd yn ôl fod hogyn bach pedair oed o Gaernarfon wedi cael dod adra o Ysyty Alder Hey ar ôl bod yno am dros ddwy flynedd. Mae Hari Jones yn dioddef o salwch prin iawn, iawn o'r enw myotubular myopathy sy'n effeithio ar ei gyhyrau a'i allu i anadlu, llyncu a symud. Mae o ar beiriant anadlu trwy'r amser ac felly angen gofal ddydd a nos.

Yr un pryd, am gyfnod o dros flwyddyn, roedd Michael, ei dad, hefyd yn wael ac mewn ysbyty yn Salford ger Manceinion, ac Ellen (mam Hari) a Tiami (ei chwaer) yn teithio yn ôl a blaen rhwng y ddau ysbyty.

Mae Hari yn gobeithio'n arw cael mynd i Ysgol yr Hendre yr un fath â'i chwaer fawr yn y flwyddyn newydd ac i Ysgol Pendalar hefyd. Fodd bynnag, gallai dal y Covid fod yn beryglus iawn iddo, felly, rhaid ynysu am y tro.

Yn y cyfamser, mae'n bwysig fod Hari a Tiami yn medu mynd ymlaen efo'u gwaith ysgol a chadw mewn cysylltiad efo'u hathrawon. A dyma pryd y camodd Côr Cofnod i mewn i'r bwlch trwy brynu ipad a ffrâm arbennig iddo fel bod Hari'n medru ei ddefnyddio'n hwylus yn ei gadair olwyn. Mae'r côr hefyd wedi prynu Chromebook i Tiami.

Dywedodd Ellen, mam Hari a Tiami, "Mae cael y peiriannau yma yn mynd i helpu'r plant yn enfawr i wneud eu gwaith ysgol adra. Mae'r ddau wrth eu bodda efo'r ysgol ac mi fydd cael y peiriannau yma yn rhoi iddynt rhyw fath o normality a chadw i fyny efo'u gwaith ysgol ac hefyd medru cadw mewn cysylltiad efo'r athrawon a chael siarad yn fyw drwy classroom teams neu Zoom."



**Ysgolion** – braf gweld plant a phobl ifanc yn pentref yn ail gychwyn yn yr ysgol. Dymuniadau gorau i bawb ohonoch, y enwedig y rhai sydd wedi cychwyn ysgol am y tro cyntaf, wedi symud i ysgol uwchradd neu goleg. Un sydd wedi ysgrifennu am ei phrofiad yn gadael Ysgol Waunfawr a symud i'r Ysgol Uwchradd yn ystod y cyfnod Covid ydi Mirain Llwyd – dyma ei hanes yn ei geiriau ei hun:

Ddoe mi wnaeth blwyddyn 6 ddweud ffarwel i Ysgol Waunfawr am y tro olaf. Ddim fel hyn roedd hi fod! Rydym ni flwyddyn 6 wedi colli llawer iawn o draddodiadau arferol yr ysgol. Oherwydd y coronavirus chawsom ni ddim mynd i Lan Llyn, na Rhyd Ddu. Cafodd y mabolgampau, ffair haf a gwasanaeth diwedd y flwyddyn i gyd eu canslo. Un peth da doedd na ddim profion chwaith!

Ond tair wythnos cyn diwedd y tymor cawsom ni gyd gyfle i fynd nol i'r ysgol diolch byth! Roedd yr hogiau yn mynd ar Ddydd Llun a'r genethod yn mynd ar Ddydd Mawrth. Roedd hi mor braf gweld fy ffrindiau a Mrs Griffiths ar ol yr amser hir adref. Roedden ni wedi bod yn gweithio ar google classroom adref ond doedd hynny ddim yr un fath a bod yn yr ysgol!

Ar ein diwrnod olaf Ddydd Iau cawsom bicnic ar yr iard gyda blwyddyn 6 i gyd. Roedd rhaid i ni gadw pellter ond roedd yn llawer o hwyl gweld pawb efo'i gilydd. Doeddwn heb weld yr hogiau ers misoedd dim ond dros face time felly roedd hi yn neis eu gweld nhw wyneb yn wyneb. Cawsom lwyth o anrhegion arbennig i gofio ein amser yn yr ysgol. Cefais darian, addurn, ffob allwedd, llun ohonom ni gyd a llun o'r ysgol. Cawsom ni hefyd offer ysgrifennu i fynd gyda ni i Frynrefail.

Mae gen i lawer o atgofion melys yn ysgol Waunfawr wna i fyth eu anghofio. Diolch yn fawr iawn i fy athrawon i gyd sydd wedi fy nysgu drwy'r holl flynyddoedd. Anti Anne, Anti Carol, Mrs Parry yn Meithrin a Derbyn. Miss Hughes a Mrs Jones ym mlwyddyn 1 a 2. Mrs Llwyd a Anti Charlene ym mlwyddyn 3. Mrs Williams ym mlwyddyn 4 a 5. Mrs Griffiths ym mlwyddyn 6. Heb anghofio staff y gegin am wneud bwyd blasus bob dydd! A diolch yn fawr iawn i Mrs Williams hefyd oedd yn ymddeol yr un diwrnod a ni.

Dwi yn edrych ymlaen i fynd i Frynrefail ym Mis Medi ond yn gyntaf dwi am fwynhau y gwyliau haf.

## Ysgol Waunfawr.

Dymuniadau gorau posibl i Bethan Jones yn ei swydd fel Pennaeth newydd ar Ysgol Waunfawr. Cyn hyn bu'n Ddirprwy Bennaeth ar Ysgol Dolbadarn, Llanberis. Dymuniadau gorau hefyd i Gwenan Dafydd ar ei hymddeoliad o'r ysgol ar ddiwedd tymor yr Haf.

**Llwyddiant arholiadau** – llongyfarchiadau i bawb sydd wedi sefyll arholiadau eleni ac wedi symud ymlaen i addysg bellach, prentisiaethau neu i swyddi. Llongyfarchiadau hefyd i Dafydd Llwyd, Stad Ty Hen ar ennill gradd dosbarth cyntaf mewn astudiaethau cyfrifiadurol ym Mhrifysgol Bangor. Mae Dafydd yn mynd yn ei flaen i astudio at radd Meistr yn y pwnc rwan, pob lwc i ti Dafydd.

**Clwb Pel Droed Waunfawr.** Mae wedi bod yn dymor tra gwahanol i glwb pel droed Waunfawr eleni. Tydi'r clwb heb chwarae gem ers trechu CPD Nefyn o 3-1 ar Fawrth 7fed. Gyda'r canllawiau diweddaraf gan y Gymdeithas Bel Droed, bydd yn rhaid i'r clwb ddisgwyl tan o leiaf ganol Tachwedd cyn cymryd rhan mewn gem gystadleuol eto. Er y diffyg gemau mae'r clwb wedi parhau yn brysur. Cynhaliwyd noson wobrwyo unigrwy dros Zoom a bu cychwyn ymarfer o dan ganllawiau diweddaraf Covd-19, y ddau yn brofiadau gwahanol i'r arfer i'r chwaraewyr a'r hyfforddwyr. Mae'r clwb hefyd wedi bod yn gweithio efo cwmni Delwedd er mwyn lawnsio gwefan newydd . Gallwch gael mynediad i'r wefan ar *http://www.cpdwaunfawr.co.uk/cy/cartref*. Y gobaith ydi cynnwys gwybodaeth am y tymor newydd yn ogystal â rhannu'r newyddion diweddaraf am y clwb. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn ymarfer/bod yn aelod o'r pwyllgor yna gyrrwch neges ar facebook y clwb @ CPDWaunfawr.

Nid yw timau pel droed y plant wedi cychwyn cyfarfod eto tymor yma.

**Merched y Wawr.** Gyda rhaglen lawn wedi ei threfnu, yn anffodus, oherwydd amgylchiadau Covid rydym wedi gorfod gohirio cyfafodydd Medi, Hydref a Tachwedd. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa ddiwedd y flwyddyn gan obeithio gallwn ail-gychwyn ein cyfarfodydd yn Ionawr 2021. Cadwch yn saff.

## Capel y Waun

Mae'r gwasanaethau ar hyn o bryd yn cael eu ffrydio ar Zoom bob bore Sul am 10.00 a.m. Gobeithir ymhen amser cael ail agor drysau'r capel. Os oes rhywun am ymuno â ni, cysylltwch ag Eurwyn Trefeddyg er mwyn cael y rhif a'r cyfrinair fydd ei angen arnoch i ymuno. I'r rhai nad oes ganddyn nhw gyfrifiadur, mae'n bosibl clywed y gwasanaeth dros y ffôn. Eto, cysylltwch ag Eurwyn ar 650 347 er mwyn cael y manylion.

**Clwb Bowlio** – nid yw'r Clwb yn gallu cyfarfod ar hyn o bryd oherwydd y Covid.

**Cylch Meithrin** – braf cael dweud bod y Cylch yn ail gyfarfod unwaith eto, ac mae'r plant wrth eu boddau i gael bod yno, er bod ambell un wedi colli deigryn yn ystod y dyddiau cyntaf. Dymuniadau gorau i'r plant, y staff a'r gwirfoddolwyr sy'n sicrhau bod y Cylch yn dal i gael ei gynnal.

**Cydymdeimlwn** Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Wilf a Lilian Jones. Bu farw y ddau o fewn wythnosau i'w gilydd. Roedd Wilf yn un barod iawn ei sgwrs pob amser a byddwn fel pentrefwyr yn gweld eu colli.

**Penblwydd arbennig** - llongyfarchiadau i chi Marian Williams, Stad Ty Hen ar dathlu eich penblwydd yn 90 oed mis yma. Gobeithio eich bod wedi mwynhau y dathlu drefnwyd ar eich cyfer gan Meirion, ac wedi mwynhau derbyn llu o gardiau ac anrhegion. Hoffai Marian Williams ddiolch i bawb sydd wedi anfon cyfarchion penblwydd ati.

**Derbyn i'r Orsedd** – hoffem longyfarch Dr Esyllt Llwyd yn gynnes iawn am iddi gael ei hurddo i'r Orsedd. Rydym mor lwcus yma yn Waunfawr ac yn Llanrug o gael gwasanaeth mor ardderchog gan ein meddygon teulu, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg – llongyfarchiadau mawr i chi.

**Llyfr y Flwyddyn** – llongyfarchiadau i Ifan Morgan Jones, brodor o'r Weun ar ennill gwobr Llyfr y Flwyddyn gyda'i nofel ddiweddaraf Babel. Mae Ifan yn awdur toreithiog, ac rydym fel pentref yn falch iawn o dy lwyddiant.

**Codi arian at achosion da** – dyna oedd hanes Tesni Wyn Jones, 12 oed o Ddyffryn Nantlle – sydd yn wyres i Alwyn a Falmai, Garreg Fawr. Cerddodd Tesni i ben Mynydd Mawr neu Fynydd Eliffant pob diwrnod am 7 diwrnod ym mis Awst gan godi dros £1,500 i Ysbyty Alder Hay, Lerpwl ac Ysgol Dyffryn Nantlle. Hoffai Tesni ddiolch i bobl Waunfawr a'i chefnogodd. Clywyd Tesni yn siarad gydag Aled Hughes a Sian Cothi ar Radio Cymru – da iawn chdi Tesni !

**Plaid Cymru** – mae nifer o aelodau o chefnogwyr Plaid Cymru yn y pentref wedi derbyn ffurflenni gwneud cais am bleidlais post yn ddiweddar. Os oes unrhyw un ohonoch ddarllenwyr eisiau ffurflen gais am bleidlais bost, mewn da bryd ar gyfer etholiadau Senedd Cymru fis Mai 2021, cysylltwch ag ysgrifenyddes y gangen, Iola ar 650035.

**Salwch** – rydym yn cofio yn gynnes iawn at Brenda Jones sydd heb fod yn dda yn ddiweddar, ac yn aros am gyfnod mewn cartref gofal. Rydym yn meddwl amdanoch ac yn anfon ein dymuniadau atoch.

ESTD 1973
WAVELLS
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr wyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574

# Newyddion o'r ysgol: Ysgol Waunfawr

O dan amgylchiadau gwahanol iawn y bu i’r plant a'r staff ddychwelyd i'r ysgol ar ddechrau mis Medi. Mae'r dosbarthiadau yn chwarae a gweithio mewn swigen er mwyn diogelwch, ond mae popeth yn cael ei wneud i sicrhau iechyd a lles pob un ohonynt, a phawb i weld yn hapus iawn i gael bod yno.

Roedd yn bleser cael cyfarfod y dosbarth Meithrin newydd a phob un ohonynt wedi mwynhau yr wythnosau cyntaf yn yr ysgol.

Yr wyf innau yn newydd i'r ysgol hefyd, ac wedi cychwyn yn fy swydd o dan amgylchiadau eithaf heriol. Oherwydd ymbellhau cymdeithasol, ni allaf wahodd rhieni na chymdogion i'r ysgol ar hyn o bryd, yn anffodus. Er gwaethaf hynny, yr wyf wedi dechrau dod i adnabod yr ardal a'i phobl, ac yn mwynhau y croeso cynnes a'r cyfeillgarwch yn Waunfawr.

Yn y dyfodol, gobeithiaf y byddem yn gallu cyd-weithio ar ddatblygu partneriaethau o fewn y Gymuned gan fanteisio ar arbenigeddau megis garddio, gweithgareddau awyr agored, celf a chwaraeon er mwyn gallu cynnig ystod eang o brofiadau i blant Ysgol Waunfawr - y maent yn sicr yn haeddu pob cyfle yn dilyn yr heriau a wynebwyd ganddynt yn ddiweddar.

Mae pwyllgor Cyfeillion yr Ysgol yn awyddus iawn i dderbyn unrhyw gymorth a syniadau ar weithgareddau codi arian ar gyfer yr ysgol. Gyrrwch neges at cyfeillionysgolwaunfawr@gmail.com os am gynorthwyo mewn unrhyw ffordd.

Edrychaf ymlaen i groesawu trigolion Waunfawr i'r ysgol yn fuan iawn. Cadwch yn ddiogel.

Bethan Wyn Jones (Pennaeth Ysgol Waunfawr)







**Cystadleuaeth Gwyl Cyfoeth Y Ddaear 2020 - Celf Bioamrywiaeth.**
**Gwobr 1af Sioned Humphreys, Ceiri Tuff a Math Parry ( Bl 7). Llongyfarchiadau iddynt.**

Gwersi Beicio

Bydd Blwyddyn 6 yn derbyn hyfforddiant beicio yn fuan - gwyliwch allan amdanynt a phawb yn gwisgo helmed.

Wynebau hapus Dosbarth Derbyn yn dychwelyd i’r ysgol




cymorth cristnogol

**Urddas. Cydraddoldeb. Cyfiawnder. Cariad.**
106 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd,
LL57 1NS, Cymru

# LLANRUG

**Plaid Cymru**
Enillwyr y Clwb Cant
Gorffennaf: 1. Nan Humphries; 2. Einir Gwyn
Awst: 1. Ifanwy Jones; 2. Meryl Green

**Bore Coffi** Mae fy Mhartner, Mark Owen Roberts (Llanrug yn wreiddiol), Cwm y Glo, wedi cynnal Bore Coffi MacMillan drwy cadw pellter ac o dan ganllawiau cofid, tu allan i'n tŷ ni yn Corlan y Rhos, Llanrug, ar ddydd Sul, y 27ain o Fedi. Gwerthwyd cacennau/teisennau a chafwyd rhoddion, gyda raffls ayyb. Diolch i pawb oedd wedi cyfrannu yn ddiogel at yr achos yn gwneud teisennau ac yn rhoddi arian.
Wayne, T.W. Hairdressing









*Paned a sgwrs Merched y Wawr. Hefyd, Bore Coffi Macmillan Llanrug: Y bwrdd wedi ei osod ar gyfer gwerthu.*

**Cyfarchion Cyffredinol** Gan nad oes newyddion personol wedi dod i law ni fyddwn yn enwi neb yn unigol gan hefyd fod cymaint o amser wedi mynd ers y rhifyn olaf.

Rydym yn anfon ein cofion diffuant at y teuluoedd sydd wedi cael colledion trist, at bawb sydd wedi bod yn wael ond wedi gwella a'r rhai sydd yn wael ac yn yr ysbytai neu Cartrefi Preswyl ar hyn o bryd.

Mae, wrth gwrs, achlysuron hapus iawn wedi bod fel canlyniadau arholiadau, babis wedi eu geni a phen-blwyddi arbennig wedi eu dathlu. Cofiwn atoch i gyd.

**Merched y Wawr** Oherwydd y cyfnod cloi ers mis Mawrth eleni nid oedd modd i'r gangen gyfarfod fel arfer. Mae gwaith y Mudiad, wrth reswm, yn dal i fynd ymlaen. Gan mai Meirwen Lloyd, Bryn Moelyn, yw y Llywydd Cenedlaethol rydym yn ffodus iawn i dderbyn newyddion am weithgareddau sydd ar waith.

Bydd y cardiau Nadolig a'r dyddiaduron ar gael fel arfer ac, os mynnir, cewch eu archebu drwy Meirwen, neu unrhyw un o'r swyddogion (yn fuan!)

Mae y 'Cwis Hwyl' yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd ond ar ei newydd wedd a gobeithio y gwneith yr aelodau i gyd gymryd rhan. Mae gwybodaeth eang 'Y Wawr' sydd yn cael ei ddosbarthu i'r holl aelodau ac ynddo ceir erthyglau diddorol iawn hefyd.

Yn ystod y cyfnod cloi daeth cymaint o aelodau Merched y Wawr ymlaen i arddangos eu cynnyrch coginio ar yr we fel nawr bod llyfr wedi ei gyhoeddi, sef Curo'r Corona'n Coginio. Mae 16,000 o ddilynwyr dros y byd ac erbyn hyn bydd ail argraffiad yn barod yn fuan. Mae'r coginio hynod wedi cadw merched a phlant Cymru yn brysur iawn dros y cyfnod hunllefus.

Daeth aelodau Llanrug a Phenisarwaun at ei gilydd yng ngardd Nan Humphreys, Tanycoed, i gael paned a sgwrs yn ddiweddar. Gan bod gardd Nan yn gae a pherllan fawr a hyfryd roedd digon o le i gadw y pellter cywir a hithau yn fore arbennig o braf.

Cawsom newyddion y Mudiad gan Meirwen a gwybodaeth leol gan Nan a Bethanne. Croesawyd pawb a chofiwyd at y rhai fu ddim yn dda eu iechyd a balch oeddem bod aelodau oedd wedi cael damweiniau hefyd wedi gwella.

Mae yn amlwg na fydd y gangen yn gallu cyfarfod yn y dyfodol agos ond cedwir cysylltiad â phawb. Gan na fu yn bosib i'r Pwyllgor Anabl gyfarfod i godi arian at elusennau eleni, cytunwyd i roi cyfle i'r aelodau gyfrannu yn unigol ac, os dymunir, gallwch anfon at Eryl Roberts neu Margaret Parry.

**Bore Coffi Merched y Wawr**

Bore Coffi MacMillan Gan nad oes modd cynnal yr uchod eleni bydd Olwen Hughes a Linda Jones, y trefnwyr, yn hapus iawn i dderbyn unrhyw gyfraniad tuag at yr elusen bwysig yma. Diolch yn fawr.

**Capel y Rhos** Braf yw cael cyhoeddi fod gwasanaethau'r capel wedi ailddechrau ar ôl cyfnod o chwe mis. Mae'r capel wedi'i baratoi'n ofalus yn ôl canllawiau gan gadw at y rheolau pellter cymdeithasol. Rydym yn cyfarfod bob yn ail Sul pan fydd ein gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson, yn gweinyddu. Does dim Ysgol Sul ar hyn o bryd. Bydd oedfaon mis Hydref felly ar y 4ydd a'r 19eg am 10.00 o'r gloch.

Ar ddechrau cyfnod y cloi mawr bu farw Mr Dylan Owen, ym Mhlas Pengwaith, Llanberis. Roedd yn frawd a brawd yng nghyfraith annwyl iawn i Eirianwen a Dafydd Whiteside Thomas. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf â chwi yn eich colled fawr.

Rydym hefyd yn cydymdeimlo'n ddwys iawn â Gwenda ac Arwyn Roberts, Hafle. Bu farw mam Gwenda, Mrs Laura Eluned Jones o Rosgadfan, yn 98 mlwydd oed. Roedd yn nain i Aled a Bethan ac yn hen nain annwyl i Efa.

Mae nifer o'n haelodau a chyfeillion wedi cael damweiniau ac eraill wedi cael triniaethau yn yr ysbyty. Da deall eu bod yn gwella'n ffafriol. Rydym yn anfon ein cofion anwylaf at Mrs Joan Humphreys, Noddfa, sydd yn symol ar hyn o bryd. Mae hi'n un o'r haelodau ffyddlonaf ac mae'n chwith gweld ei sedd yn wag.

# BRYNREFAIL

### PONT PENLLYN

Wedi hir ddisgwyl, yn dilyn y difrod wnaed trwy ddamwain fisoedd maith yn ôl i un o ganllawiau'r Bont sy'n croesi'r Seiont ar yr A4244, bu llawer o weithgarwch yn mynd ymlaen ar ddechrau Cyfnod y Clo i wneud yr atgyweiriadau angenrheidiol. Roedd yr hysbysiad y byddai'r gwaith yn cymryd naw wythnos i'w gwblhau yn swnio yn gyfnod hir o oedi gydag un rhes o drafnidiaeth. Ond erbyn hyn, gall pawb sylweddoli beth oedd y cynlluniau arfaethedig a maint y gwaith mewn llaw, gan fod y canllawiau ar y naill ochr i'r Bont wedi cael adnewyddiad llwyr gydag ymestyniad estynedig i'r bariau diogelwch ar ddwy ochr y ffordd wrth nesu a gadael y Bont. Gweddnewidiad yn wir!

### YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

Yn dilyn arweiniad penodol gan ein Cyfundeb, seiliedig ar y cyngor ddarparwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ni chynhaliwyd addoliad cyhoeddus gennym fel Eglwys ers diwedd Mawrth.

Yn y cyfamser, gwnaed ymdrech arbennig i gysylltu â'n gilydd ac â phawb yn y gymuned, er amlygu ein gofal a'n consyrn, drwy ffyrdd diogel, yn wyneb y sefyllfa oedd ohoni.

Gwelwyd llawer o ewyllys da a chymorth gan y pentrefwyr yn wyneb anghenion nifer o drigolion, a mawr fu gwerthfawrogiad pawb o'u caredigrwydd.

Ers llacio'r rheolau ddiwedd Awst a'r caniatâd gan Lywodraeth Cymru i agor mannau addoli, cyhoeddwyd canllawiau manwl gan Fwrdd Cymanfa Gyffredinol yr Eglwys Bresbyteraidd. Fodd bynnag, mae ein sefyllfa ni yma ym Mrynrefail, sy'n addoli yn y Caban yn wahanol i'r rhelyw o eglwysi gan nad ydym yn berchen ar yr adeilad ac felly roedd llawer o risgiau oedd i'w hystyried yn ei gwneud yn anymarferol i ni ddod at ein gilydd i addoli. Roeddem am adolygu y sefyllfa ar ddechrau 2021 ond erbyn hyn rydym yn wynebu cyfnod a dyfodol ansicr unwaith eto.

Yn y cyfamser, hyderwn y bydd ein haelodau yn manteisio ar y cyfle i addoli mewn oedfaon am 10 y bore yn ein chwaer eglwys Capel y Rhos, Llanrug dan arweiniad ein Gweinidog y Parch Marcus Robinson a hynny ar y Sul cyntaf a'r trydydd o bob mis; yn y Capel Coch, Llanberis ar yr ail a'r pedwerydd Sul dan arweiniad y Parch John Pritchard neu Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun am 11 y bore yn wythnosol.

### SEFYDLIAD Y MERCHED

Mae'n edrych yn amser hir ers pan gawsom ddod at ein gilydd fel aelodau a phob cyfarfod lleol a rhanbarthol wedi eu rhoi o'r neilltu. Gobeithio fod pawb yn dal ati gydag amrywiol weithgareddau ac yn cymryd gofal. Dim ond hyderu y cawn edrych ymlaen i gyfarfod y flwyddyn nesaf a dod yn ôl i ryw normalrwydd.

Yn y cyfamser mae Sioe Grefftau a Chynnyrch wedi ei threfnu ar gyfer Gorffennaf 10fed, 2021. Mae'r Rhaglen yn cynnwys cystadleuaeth wedi ei gosod i wneud torth Lemwn a Cheirios. Felly dyma y rysait i chwi a digon o gyfle i ymarfer!



## TORTH LEMWN A CHEIRIOS

**( Torth 2 bwys)**

### Cynhwysion

12 owns o flawd codi

pinsiad o halen

6 owns o fenyn

6 owns o siwgr castr

4 owns o geirios wedi eu chwarteru

croen un lemwn wedi ei gratio

2 wy

llefrith i gymysgu

### Yr eisin

4 owns o siwgr eisin

dŵr i gymysgu ac ychydig geirios

### Dull

Popty 350F/180C neu Nwy 4

Gorchuddio tun 2 bwys

Hidlo'r blawd a'r halen i bowlen a rhwbio'r menyn i fewn i wneud briwsion

Ychwanegu'r siwgr, ceirios a'r croen lemwn

Curo'r wyau a'r llefrith gyda'i gilydd a'u hychwanegu i'r gymysgedd

Rhoi y cymysgedd yn y tun i grasu am awr i awr a chwarter

Ychwanegu yr eisin dros y dorth wedi iddi oeri

Byddwn yn anfon Llythyr y Mis, Rhaglen y Sioe Grefftau a Chynnyrch i bob aelod. Pob hwyl ar y rysait a chofion atoch i gyd.

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS
DYLAN GRIFFITH
*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
••• 01286 673535 •••
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG



# Tecstiliau Bedol

Prin iawn yw’r cyfleoedd y dyddiau yma i fynychu unrhyw ddigwyddiad, neu i fynd allan i wneud rhywbeth creadigol, yn enwedig hefo pobl eraill. Rhaid i mi fod yn onest felly a dweud ’mod i ’chydig bach yn nerfus a chyffrous cyn mynd i’r Bedol ym Methel ddydd Sadwrn 26 Medi ar weithdy diwrnod i ddysgu sut i wneud ‘Sgarff Ffelt Gwe’.

Mudiad elusennol Tecstiliau oedd yn rhedeg y cwrs a doedd dim angen poeni o gwbl ynghylch y trefniadau Covid-19. Roedd y safle wedi ei osod allan yn ddiogel a’r trefniadau gofalus yn sicrhau nad oedd neb o’r grŵp bychan ohonom yno yn agos at ein gilydd. Deg gwaith brafiach a saffach nag ymweliad ag archfarchnad neu lan y môr!

Dechreuodd Tecstiliau sefydlu canolfan iddynt eu hunain yn Y Bedol ddechrau’r flwyddyn ond wrth gwrs daeth Covid a tharfu ar bopeth! Yn raddol maent yn ail gychwyn cynnal cyrsiau, ac mae’n wych gweld bywyd yn dod yn ôl i’n pentrefi, a chyfleoedd i ddysgu a chymdeithasu unwaith eto. Hogia bach, dydi rhywun ddim yn sylwi colli rhywbeth tan iddo fynd nac’di! Gyda’r holl ddiwydiannau creadigol ar eu gliniau, mae’n rhaid i ni ganfod rhyw ffordd ymlaen i’w cynnal.

Mae gan y mudiad sawl digwyddiad ar-lein neu gwrs dros y misoedd nesaf, felly ewch i’w gwefan i weld beth sydd ganddynt i’w gynnig – https://cy.tecstiliau.org/ Mae hyn oll ar garreg ein drws, a dwi’n siŵr y bydd yn adnodd gwych unwaith y daw’r byd yn ôl i drefn.

Mae’n debyg bod yna gynlluniau cyffrous eraill ar y gweill yn Y Bedol hefyd... rhagor o wybodaeth yn y dyfodol agos gobeithio?!

Yn ôl at y gweithdy – o dan ofal y tiwtor Gwen Owen, sydd â gweithdy ym Mharc Glynllifon, cawsom ddiwrnod bendigedig. Llwyddodd Gwen i gynnal y diwrnod yn ddwyieithog ac roedd digon o gyfle i holi a thrafod. Dyma hi gyda rhai o’i sgarffiau ei hun –

Roeddem yn defnyddio gwlân dafad Wensleydale wedi ei dynnu’n denau, ac yn ei osod mewn haenau tenau yn groes i’w gilydd. Cyfle wedyn i ychwanegu lliw neu wead drwy ychwanegu gwlân merino neu silc, yna’i wlychu gyda dŵr a sebon naturiol.

Roedd y cyfan yn cael ei osod fel brechdan rhwng dwy haen o ‘bubblewrap’ a’i rwbio er mwyn i’r ffeibrau ddechrau ‘gwau’ i’w gilydd. Roedd mwy o ymarfer i ddilyn, gyda’r cyfan wedyn yn cael ei lapio o amgylch hen diwb cyn ei amgylchynu mewn hen dywel a’i rowlio 500 o weithiau – digon o ymarfer i’r hen ‘bingo wings’!

Llafur cariad felly arweiniodd at adael Y Bedol ddiwedd y dydd gyda sgarff ysgafn ond cynnes, y ces i’r pleser pur o’i greu.

Bethan Richardson



# Colofn Llên Natur

Duncan Brown
Golygydd Prosiect Llên Natur ar ran Cymdeithas Edward Llwyd

Mae'r syniad o bawb yn cofio beth oedden nhw'n ei wneud ddeugain mlynedd yn ôl, nid mewn mis arbennig, nid ar ddiwrnod arbennig, ond funud arbennig yn eu bywyd, yn syniad cyfareddol i mi. 'Sut mae hynny'n bosibl?' meddech. Wel, y funud gofiadwy honno ddaru'r byd ysgwyd i chi, yn llythrennol, am chwarter i wyth y bore ar yr 17 Gorffennaf 1984 - dyna sut! Mae'n siŵr bod llawer ohonoch yn cofio Daeargryn Fawr Llŷn y diwrnod hwnnw? Beth am rannu eich atgofion?

Fe gynhalion ni arolwg bach yn ddiweddar i gasglu hynny o atgofion roedden ni'n gallu perswadio pobl i rannu efo ni ar y Ffêsbwc Cymuned Llên Natur. Dyma rai o atgofion o Fro'r Eco (ish!):

Eira Rhian Hughes (Caernarfon): "Clywed rumble mawr ac yn meddwl fod peipen ddŵr yn mynd i ffrwydro wrth neu yn y tŷ. Mam yn meddwl fod dad wedi disgyn lawr grisiau."

Catrin Lliar Jones (Llanaelhaearn ar y pryd, Rhosgadfan rwan): "Roedden ni'n byw yn Bryn Meddyg, Llanaelhaearn... Mi oedden ni'n gosod hanner y tŷ yn ystod tymor yr haf... oherwydd hynny mi roedden ni wedi rhoi rhyw gegin fach at ei gilydd yn y garej... yn fanno oedd mam pan ddigwyddodd y ddaeargryn. Roedd wedi codi cyn pawb fel arfer.... mynd ati i ferwi wyau ar y stôf nwy yno... roedd fy mrawd a fi mewn ystafell fach... bunks, fi yn y top a fo o dan, ac roedd dad ar y soffabed yn y stafell nesa i ni a dwi'n cofio mam yn dweud fel jôc ei bod wastad yn mynd i gymryd daeargryn i ddeffro dad. Roedd mam ar fin rhoi matsien i fewn i'r stof pan glywodd hi sŵn rymblo mwya diawledig a'r stof a phopeth o'i chwmpas hi yn crynu. Mi redodd hi allan o'r gegin gan bod hi'n meddwl bod y stof ar fin ffrwydro am rhyw reswm... rhedodd allan i'r dreif ac edrych i lawr (mae'n siŵr bo fi'n gofio fo'n hirach am mod i'n llai adeg hynny) ac roedd y dreif yn mynd fel tonnau medde hi. O'n i yn y bync top a mi godish i a methu dallt be oedd yna... rhywun yn arfer efo loriau ayb ond oedd hwn i glywed yn llawer iawn mwy dychrynllyd... neidio allan o'r bync a mynd allan o'r tŷ a mam yn sefyll yno, ac wrth gwrs erbyn hynny mi roedd o wedi tawelu ond y ddwy ohonon ni yn araf sylweddoli bod rhyw fath o ddaeargryn wedi digwydd ac fel oedd y dydd yn mynd yn ei flaen a straeon yn cael eu rhannu, sylwi faint o niwed oedd wedi cael ei wneud i adeiladau o gwmpas a dychryn bod rhywbeth o'r fath yn medru digwydd yn rhywle fel Pen Llŷn mewn ffordd.... cofio bod hi'n ddiwrnod braf dwi'n meddwl".

Mae'r holl gofnodion eraill i'w gweld ar https://www.mapiaullennatur.net/cartref/y-byd-natur/daeargryn-1984/dg84-cofnodionon/dg5 neu trwy wefan Llên Natur. Ond, fel y gwelwch, nid oes llawer o gofnodion GAN bobl bro'r Eco heddiw na chwaith o brofiadau YM mro'r Eco ar y pryd. Cofnodwch.... hyd yn oed os na theimloch chi ddim byd - lle bynnag oeddech chi ar y pryd.

# Mudiad Meithrin

## Ymgyrch Cylchoedd yn Cerdded 7-14 Tachwedd 2020

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi manylion ein hymgyrch codi arian i'n Cylchoedd Meithrin a'n meithrinfeydd dydd eleni sef Cylchoedd yn Cerdded. Yn dilyn sgil-effeithiau pandemig Cofid-19 a'r rheolau ymbellhau cymdeithasol sydd mewn grym, mae'r angen am godi arian ychwanegol i'r Cylchoedd a'r meithrinfeydd dydd yn fwy nag erioed. Felly bydd ymgyrch Cylchoedd yn Cerdded yn cynnig gweithgaredd codi arian syml, effeithiol a diogel, a'r bwriad yw trefnu teithiau cerdded noddedig syml i'r plant yn y Cylchoedd (a'u teuluoedd os bydd amodau'r pandemig yn caniatáu). Bwriedir cynnal yr ymgyrch yn ystod wythnos 7-14 Tachwedd 2020.



Yn ogystal â chodi arian i'r Cylch/feithrinfa bydd hyn yn ffordd o hyrwyddo addysg Gymraeg mewn ffordd hwyliog a gwneud i bawb fydd yn cymryd rhan deimlo fel rhan o 'un teulu mawr' y Mudiad Meithrin.

Mae sawl ffordd y gall y Cylchoedd gynnal ymgyrch Cylchoedd yn Cerdded yn llwyddiannus, e.e.

- y plant i wneud taith gerdded noddedig yn ystod amser Cylch – a chael teulu a ffrindiau i'w noddi
- cefnogaeth y gymuned leol – gallant fapio llwybr i aelodau'r gymuned ddewis ei gwneud a chyfrannu arian i'r Cylch
- annog teuluoedd gwahanol i ddewis eu taith eu hunain – gallant ddewis cerdded mewn Cylch o gwmpas parc lleol os nad oes teithiau lleol addas ar gael
- gofyn i gyfeillion y Cylch neu 'selebs' lleol i wneud sialens taith gerdded a rhoi arian i'r cylch
- gofyn i rieni gyfrannu arian mân i'r Cylch a cheisio creu llinell o arian mân o gwmpas y Cylch a chaiff bob Cylch gadw'r arian i'w coffrau ar y diwedd.

Bydd pecyn adnoddau yn cael eu danfon allan i'r Cylchoedd gyda thaflen weithgareddau ar y thema, sticeri, posteri blanc i hyrwyddo'u digwyddiad, taflenni casglu nawdd a manylion am sut i gasglu arian trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

AVW ADVANCED VEHICLE WORKSHOP
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

# Pwy oedd Peter Wright? (y ddau ohonynt)



Ar Gwilym Evans mae'r bai i gyd! Holi wnaeth ar y cyfryngau cymdeithasol am darddiad enw ei gartref yn Llanberis, sef Tyddyn Marsli/Marsley. A dyna gychwyn dilyn sgwarnog diddorol. Roedd peth amheuaeth ynglŷn â'r enw gwreiddiol, gan ei fod yn cael ei gofnodi hefyd fel Ty'n Marchllif/Tyddyn Marchli. Ond roedd angen arbenigwr i drafod yr enw, felly, dyma droi unwaith yn rhagor at yr Athro Hywel Wyn Owen, oedd â chysylltiad anuniongyrchol â Thyddyn Marsli. A diolch iddo am ei erthygl gynhwysfawr sy'n dilyn hyn o lith.

Mae'r enw Tŷ Marchli yn ymddangos ar Gyfrifiad 1841, ond nid ar Fap Degwm Llanberis, hefyd yn 1841. Beth tybed sydd i'w gyfri am hyn? Dyddiad arwyddo fod y wybodaeth ar gyfer y degwm yn gywir yw 1841, a'r wybodaeth honno wedi ei chasglu ers rhai blynyddoedd yn gynharach. Felly, doedd Ty Marchli/Tyddyn Marsli ddim wedi ei adeiladu pan oedd y wybodaeth yn cael ei chasglu, ond roedd wedi ei adeiladu erbyn dyddiad y cyfrifiad.

Y tirfeddiannwr sy'n berchen ar y tir ble'r adeiladwyd Tyddyn Marsli oedd Peter Wright Esquire, "the representative of the late Reverend Peter Wright." Dyna'r ddau Peter Wright. Mae'r Map Degwm yn rhestru chwech eiddo iddynt ym mhlwyf Llanberis, a hyd y gallaf ddarganfod, doedd ganddynt ddim eiddo arall yng Nghymru. Mae defnydd tir yr holl eiddo yn Llanberis yn cael ei ddisgrifio fel "sheep walk"; cyfanswm o bron i 550 acer o dir, a'r mwyaf o ddigon oedd "allotment called Cwm dwythwch" oedd yn 425 acer. Roedd eu tir yn ymestyn yn rhimyn cul o Gwm Dwythwch i lawr y llethrau at y Dolbadarn Inn (28 acer), ac yn cynnwys Hafod Lydan (43 acer), Llwyncelyn bach (37 acer), Ceunant cottage and garden, a Chapel and dwelling house ( y ddau olaf yn llai nac acer yr un). Capel Coch oedd y capel hwn,wrth gwrs. Ar un ochr i'r rhimyn cul hwn roedd eiddo Elusen Tlodion Rhuthun, yn ymestyn tua'r terfyn â phlwyf Llanrug, ac ar y naill ochr yn eiddo Stad y Faenol.

Mary Evans oedd yn cadw'r Dolbadarn, John Wheldon oedd yn byw yn y tŷ capel, Evan Jones yn Ceunant cottage, Pierce Jones yn Llwyncelyn bach a Hugh Owen yn Hafod Lydan. Y ddau olaf, rhyngddynt oedd yn dal tiroedd pori Cwm Dwythwch.

Deuthum ar draws eiddo arall yn perthyn i'r Parch Peter Wright (11 daliad i gyd) a hynny mewn lle o'r enw Marks Tey, Swydd Essex. Mae cofnodion hefyd yng Nghasgliad Henlle Hall yn Archifdy Amwythig sy'n ei enwi ef ac Elizabeth, ei wraig, mewn cysylltiad ac eiddo o'r enw Cae Bryn y Castell, a thir Bryn Mawr yn Daywell, Whittington, a hynny yn 1822. Mae Daywell tua 3 milltir i'r gogledd o Groesoswallt, ond yn Lloegr. Diddorol nodi mai enwau Cymraeg oedd ar ddaliadau tir yno bryd hynny.

Merch William Frodsham oedd Elizabeth, a phriodwyd hi a'r Parch Peter Wright yn Eglwys y Santes Fair, Eccles, Swydd Gaerhirfryn yn 1806. Roedd Peter Wright yn gwasanaethu ym mhlwyf Knutsford, Swydd Caer ar y pryd. Roedd chwaer i Elizabeth o'r enw Harriet, hefyd wedi priodi gŵr eglwysig. Priodwyd hi a'r Parch Richard Waller yn 1805, eto yn Eccles. Mae'r ddwy chwaer a'u gwŷr yn cael eu henwi yn y cofnodion am diroedd yn Daywell.

Yn fuan wedi priodi mae'n amlwg i'r Parch Peter Wright ddderbyn rheithoriaeth Marks Tey, Swydd Essex, oherwydd yno y cofnodir geni eu plentyn hynaf ddiwedd 1806, sef Peter. Mae'n ymddangos mai yn Marks Tey y treuliodd weddill ei oes yn rheithor y plwyf, a bu farw yno ar ddechrau 1839.

Ym mis Gorffennaf 1838 cyhoeddwyd rhybuddion ynglŷn â hawliau tirfeddiannwyr yn ymwneud â Deddf y Degwm yn y North Wales Chronicle. Cyfreithiwr o'r enw John Millington, gyda swyddfa yn Stryd y Farchnad, Caernarfon, oedd yn cynrychioli y Parch Peter Wright.

Y cwestiwn sy'n aros yw sut y daeth y gŵr eglwysig hwn yn berchen tir mewn llefydd mor bell oddi wrth ei gilydd a Marks Tey yn Essex, Daywell yn Swydd Amwythig, a Llanberis. A pha bryd tybed y gwerthwyd yr eiddo yn Llanberis?

Roedd Peter Wright, y mab, yn amlwg ymhlith gwreng a bonedd Swydd Essex, a chefais gyfeiriad ato yn 1831 mewn cyfarfod o'r Essex County Reform yn galw am ddiwygio'r Senedd. Ond wedi hynny, methais a darganfod unrhyw gyfeiriad ato mewn unrhyw gyfrifiad. Er hynny, deuthum ar draws aelodau eraill o'r teulu – a dim un ohonynt mewn gwaith! Roedd merch y Parch Peter Wright yn byw yn Cheltenham ac yna yn Bournemouth yn ddibynnol ar "mortgages and funds." Roedd wyresau'r Parch Peter Wright hefyd yn byw yn Bournemouth yn ddibynnol ar "income under Trustees." Mae hyn yn awgrymu (ond ni allaf brofi hynny) fod yr eiddo yn Llanberis, Croesoswallt ac Essex wedi ei werthu, a chronfa ariannol wedi ei sefydlu ar gyfer y disgynyddion.

Yn sicr, yn ddiweddarach yn y ganrif daeth Cwm Dwythwch yn eiddo i Assheton Smith. Ac ar dir y ddôl bach ar fferm y Dolbadarn Inn yr adeiladwyd gorsaf reilffordd Llanberis. A beth am weithredoedd gweddill yr eiddo a enwir uchod?

Cafodd y Parch Peter Wright ei eni tua 1775-80, felly nid y fo oedd perchennog y tir pan adeiladwyd y Capel Coch cyntaf. Pwy felly roes ganiatad i Fethodistiaid cynnar y fro godi capel ar dir oedd/ddaeth (?) yn eiddo i glerigwr yn Eglwys Lloegr?

Mwy o gwestiynnau nac o atebion, ac rydwi'n gobeithio nad yw'r stori hon wedi gorffen eto. Ond diolch i Gwilym Evans am godi sgwarnog aeth ar daith hynod ddiddorol. Tybed oes mwy o sgwarnogod allan yna?

## TYDDYN MARSLEY

Mae Tyddyn Marsley yn weddol agos at yr eglwys, i fyny llwybr digon garw. Rwyn ei gofio oherwydd roedd modryb i'r wraig yn byw yno yn ystod y chwedegau, a phan roeddan ni'n canlyn byddai Rhiain (Rhiain Wyn Williams Well Street yr adeg hynny) yn mynd â fi i weld Anti Annie (Jones).

Enw personol benywaidd ydy Marsli neu Marsley, Yn archif ryfeddol o enwau lleoedd Melville Richards (bangor.ac.uk/amr) fe welais enghraifft arall o'r enw, sef Tyddyn Marsli yn Llanfairfechan (Tyddyn marsley 1716, Tyddyn Marsley 1742). Yng ngofnodion y Llyfrgell Genedlaethol mae'r enw yn dod i'r golwg sawl tro megis Marsli William 1623, Bryn Marsli 1881, Caeau Marsli 1780, Llain Marsli 1847, Cae Farsli yn Llangefni. Hyd y gwn i prin iawn ydy'r enw erbyn heddiw. Fe wn am un ferch o'r enw Marsli Owen a dyna'i gyd.

Bu'r enw yn gyffredin iawn yng Nghymru ar un adeg. Yn wir mae Edward Lhuyd wrth ysgrifennu am blwyf Cilcain Sir y Fflint yn 1700 yn nodi ei fod yn enw cyffredin (ynghyd â Lowri, Gaenor ac Angharad). Roedd Lluyd o'r farn 'it seems to be a corruption of Margery' (Parochialia i 81). Mae hynny'n wir am yr Alban ble mae Mairsli yn fersiwn o Margery, Yn Iwerddon, mae'r enw Mairsili yn amrywiad ar Marcella.

Mae Dysglau Marsli neu Llestri Marsli neu Clytiau Marsli hefyd yn ymddangos mewn llên gwerin am glytiau o greigiau pell ar ochr mynydd sy'n sgleinio yn yr haul. Arwydd o law, medd rhai. Pa Marsli oedd hon, pwy ŵyr bellach, ond mae'r ymadrodd wedi ymledu i lên gwerin gogledd Cymru.

Fe anfonodd Dafydd Whiteside restr o ffurfiau cynnar o Tyddyn Marsley, Llanberis. Gan ddiolch i Dafydd am ei wybodaeth a'r haelioni arferol, dyma rai o'r ffurfiau hynny (o'r Cyfrifiad):

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ty marchli | 1841 | Tyddyn Marsley | 1881 |
| Tyn marchllif | 1851 | Ty'n-y-Marchlif | 1886 |
| Tyn Marchlif | 1861 | Tyddyn Marsli | 1891 |
| Tyddyn Marsley | 1871 | Tyddyn Marsley | 1901 |
| Tyddyn Marchlif | 1876 | Tyddyn Marsley | 1911 |

Mae Marsli a Marsley yn amlwg yn y rhestr. Ond sut i egluro marchli a Marchlif sy'n ymddangos bum gwaith yn y rhestr? Yn ôl Dafydd, yr un teulu oedd yn byw yn Tyddyn Marsley o 1861 hyd at 1911. Sut oeddan nhw yn ynganu'r enw? Efallai mai fel Marshley. Ac yna'r sawl luniodd restr y Cyfrifiad (efallai un di-Gymraeg) yn ei gofndodd fel March-li (sillafiad Seisnig) ac un arall yn ei 'gywiro' i Marchlif (fel pe byddai'n air Cymraeg). Ond dyfalu ydy hyn.

Oes yna sail o gwbl i marchli a marchlif? Nid yw'r naill air na'r llall yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru. Fe ellid damcaniaethu mai'r elfen gyntaf ydy march 'mawr' (megis marchfrwyn, marchwellt a marchwiail a aeth yn Marchwiel ger Wrecsam). Ai march + llif sy yma, yn rhoi marchli(f)? Ffrwd eithriadol o gryf? Efallai llecyn oedd yn gorlifo yn arw ar adeg llifogydd mawr? Ond ni welais enghraifft arall o marchlif yng Nghymru.

Ar y llaw arall, dywed cymydog i Dyddyn Marsley fod y gair marchli(f) i'w glywed yn ardal Clynnog i gyfeirio at ymyl cae heb ei aredig, ble byddai'r ceffyl (? march) a'r aradr yn cael eu troi i agor y cwys nesa'. Talar fyddai'r gair mwyaf cyffredin am hynny, 'headland' yn Saesneg. Ond oherwydd tir caregog Tyddyn Marsley, nid ydy'r syniad o aredig yn gweddu.

Dyna fethu cynnig eglurhad boddhaol i fodolaeth marchli(f) yn rhestrau'r Cyfrifiad. A gwell cyfaddef hynny. Rwyn dal i gredu mai yn ffurf ysgrifenedig y Cyfrifiad mae'r broblem, gan bod Marsli wedi goroesi fel ffurf lafar, ac yn cydfynd â Marsli yng ngweddill eraill Cymru..

Tybed a oes rai o ddarllenwyr yr Eco â mwy o wybodaeth am Ddysglau Marsli?

Hywel Wyn Owen
Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

## Coparet Gallt y Foel

Gyda diolch i Alwyn Williams am gysylltu ynglŷn â'r tai yn cario'r enw 'Coparet' ar Allt y Foel. Gobeithio y gellir ymhelaethu ar hyn yn y rhifyn nesaf.

## CAEATHRO

**NEWYDDION CAEATHRO - AWST/MEDI 2020**

Wedi chwe mis anodd, rhyfedd a heriol iawn mae'n braf cael ail ddechrau gohebu yng ngholofn Caeathro o Eco'r Wyddfa. Er mor anodd yw sefyllfa COVID-19 o hyd, braf yw gweld fod trigolion yr ardal yn tynnu ynghyd ac yn cefnogi eu gilydd.

**FFORDD OSGOI BONTNEWYDD**

Un peth na ddaeth i stop yn ystod y cyfnod oedd gwaith adeiladu ar y ffordd osgoi. Mae'r siwrna i Gaernarfon o Gaeathro bellach yn un hwylus gan i'r ffordd ailagor yn dilyn dyfodiad y bont newydd. Mae'r gwaith yn parhau a'r tirlun yn newid yn ddyddiol.

**CANOLFAN Y CAPEL**

Yn dilyn hawl i ailagor addoldai a dilyn asesiad a chanllawiau trwyadl Llywodraeth Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, mae Gwasanaethau'r Capel bellach wedi ail ddechrau. Mae rheolau penodol mewn lle ar gyfer cynnal y Gwasanaethau a bydd y Gweinidog a'r Swyddogion yn adolygu y trefniadau yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd nid oes modd cynnal unrhyw weithgaredd cymunedol yn yr adeilad. Bydd swyddogion Canolfan y Capel yn diweddaru y drefn eto ar ol canllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru.

**GWASANAETHAU'R CAPEL**

Ar ddydd Sul yr 2il o Hydref bydd Oedfa Diolchgarwch yn cael ei chynnal dan arweiniad y Gweinidog, Y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Bydd cyfarfod Swyddogion yn dilyn yr Oedfa. Ar ddydd Sul y 18fed o Hydref bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Bonheddwr Dafydd Iwan.

**CYMDEITHAS CAE CHWARAE**

Nodyn i'ch atgoffa fod aelodau pwyllgor y Cae Chwarae yn parhau i fod ar gael i gynorthwyo unrhyw un sydd mewn angen yn ystod y cyfnod hwn – cofiwch ofyn os am gymorth o unrhyw fath.

Yn ystod y cyfnod COVID-19, mae'r Dynfa Fisol wedi ei hatal dros dro.

**LLONGYFARCHIADAU**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i holl bobl ifanc yr ardal fu'n llwyddiannus mewn arholiadau yn ystod yr Haf ac sydd yn cychwyn ar yrfa neu gwrs addysg bellach.

**NEWYDDION YFORY**

Hoffwn eich atgoffa fy mod yn eiddgar i dderbyn unrhyw newyddion sydd gennych, boed fach neu fawr, yn ddoniol, yn lwyddiannau, yn ddathliad neu'n hanes - cofiwch gysylltu. Diolch yn fawr.

TUDALEN YR **IFANC**

# Magi Tudur

Mae Magi Tudur yn adnabyddus i nifer fel y gantores o fro'r Eco sydd wedi gwneud enw i'w hun am ei cherddoriaeth amgen, arallfydol, dan yr enw Magi. Cafodd fideo i'w thrac 'Golau' ei gyhoeddi ar sianel Lŵp S4C dros yr haf. Ond yn ystod cyfnod Covid-19 mae Magi wedi bod yn brysur yn datblygu ei chrefft mewn maes gwbl wahanol. Dyma'r Eco'n mynd i'w holi am ei busnes newydd, Crochet Magi:



## Sut mae cyfnod Covid wedi dy drin di?

Dwi'n astudio Meddygaeth ym Mhrifysgol Bangor (un or blynyddoedd cyntaf i hyn fod yn bosib!) a dwi newydd ddechrau fy ail flwyddyn. Er mwyn astudio Meddygaeth ym Mangor, mae'n rhaid i bawb wneud un blwyddyn yng Nghaerdydd. Felly cafodd fy mlwyddyn gyntaf yng Nghaerdydd ei dorri'n fyr oherwydd Covid-19. Mi ddes i adref i Benisarwaun at Mam a Dad a fy mrawd, Moi, ym mis Mawrth gan ddisgwyl dychwelyd i Gaerdydd ar ôl y Pasg ond wrth gwrs, adre o'n i tan diwedd mis Medi! Pan ddes i adref penderfynais ddefnyddio'r holl amser rhydd yn ystod y cyfnod clo i ddechrau busnes creadigol – crochet. Roedd hyn yn benderfyniad da gan fy mod i'n berson sy'n hoffi cael fy nghadw'n brysur!

## Lle ddechreuodd y diddordeb mewn crochet?

Pan oeddwn i yn y 6ed dosbarth yn Ysgol Brynrefail, roeddwn i'n cael gwersi gitâr fâs yn Galeri yn wythnosol. Tra ro'n i'n Galeri, roedd Mam yn siop Palas Print am awr bob wythnos yn y clwb 'Ar y Gweill' – sef clwb cymdeithasol i weu a chrosio, sgwrsio a bwyta cacennau! Ar ôl i mi weld y clwb a chyfarfod pawb yn Ar y Gweill, penderfynais bod y syniad yn cŵl ar ôl gweld y deunyddiau roedd pawb yn eu creu. Mae'n rywbeth "therapeutic" i wneud ac hefyd rydw i'n cael rhywbeth allan ohonno ar ôl gorffen e.e. blanced, neu rhywbeth i wisgo! Felly dyna lle mae'r diddordeb wedi dechrau.



## Pa fath o ddeunyddiau wyt ti'n ei greu?

Yn fy musnes "Crochet Magi" rydw i'n gwerthu amryw o bethau gwahanol yn cynnwys: clustogau, clustdlysau, bandiau gwallt, buntings, brooches, mandala i hongian ar y wal, padiau tynnu colur ailddefnyddiadwy neu yn cymryd comisiynau ar gyfer throws/rugs.

## Lle all pobl gael gafael ar dy waith?

Mae fy ngwaith ar gael ar Facebook – Crochet Magi, Instagram – @crochet.magi neu ebostiwch magitudur@hotmail.co.uk am fwy o wybodaeth. Mae fy neunyddiau hefyd ar gael yn Siop Mirsi yng Nghaernarfon.







# LLANBERIS

**Cais Am Newyddion** Os es unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffon/ ebost neu alwad personol, yn y cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis, diolch yn fawr.

**Eglwys Sant Padarn** Mae Eglwys Sant Padarn yn falch o fod wedi medru ailgychwyn gwasanaethau ar y Sul. Cynhelir gwasanaeth bob dydd Sul am 11 y bore, unai Cymun Bendigaid neu Boreol Weddi. Hefyd, mae'r Eglwys ar agor bob prynhawn Mercher rhwng 12 a 4 ar gyfer ymwelwyr neu weddi breifat. Yn ystod 2019 bu'r gwirfoddolwyr yn brysur iawn yn gwneud gwaith cynnal a chadw, a chynhaliwyd nifer o weithgareddau codi arian. Wrth gwrs, yn anffodus, nid yw hynny wedi bod yn bosib yn ystod y flwyddyn hon. Gobeithio y medrwn ail-afael ynddi yn 2021.

**Capel Jerusalem** Dymuna'r swyddogion anfon cyfarchion at yr aelodau a dymuno'r gorau iddynt. Oherwydd yr anghydfod presennol, ni fydd datganiad ynglŷn ag oedfaon yn cael ei gyhoeddi tan fydd pethau wedi gwella.

**Llongyfarchiadau** i'r rhai ohonoch a fu'n llwyddiannus, o dan amgylchiadau anodd iawn, yn eich arholiadau yn ystod y misoedd diwethaf.

**Cydymdeimlwn** a'r holl deuluoedd a gollodd rai annwyl yn ystod y misoedd diwethaf. Er bod cydymdeimlo personol wedi bod yn anodd, os nad yn amhosib, 'roedd ein meddyliau gyda chwi.

**Dymuniadau Gorau** i'r rhai a fu'n derbyn triniaeth feddygol yn ystod yr argyfwng yma, brysiwch wella!

# DEINIOLEN

**Neges gan y Cynghorydd Sir dros ward Deiniolen – Elfed Williams:**

"Hoffwn ddiolch o waelod calon i bawb sydd wedi camu i'r adwy i helpu pobl fregus y fro. Mae sefydlu Grŵp Cymorth Covid-19 Deiniolen wedi bod yn syniad amhrisiadwy ac yn adnodd hollbwysig i sawl un – diolch i'r cydlynwyr ac wrth gwrs i'r llu o wirfoddolwyr sydd wedi bod (ac yn parhau i fod) allan bob awr o'r dydd ym mhob tywydd yn cynorthwyo! Mae cymorth gwerthfawr Cyngor Gwynedd a Mantell Gwynedd hefyd wedi sicrhau bod pob person bregus wedi eu diogelu. Unwaith eto, diolch!"

## 29ain Medi 2020-Thomas Bach yn dychwelyd adref

Adeiladwyd 'Thomas Bach ' ym 1904 a bu'n gweithio yn Chwarel Dinorwig tan tua 1959. Pan gaeodd y chwarel ym 1969 fe'i prynwyd gan gwmni Rheilffordd Llyn Padarn. Yn anffodus pan y'i prynwyd, doedd Thomas Bach ddim mewn cyflwr rhy dda a bu'n rhaid ei ailadeiladu'n llwyr yng ngweithdy'r rheilffordd.

Ym 1988 cychwynnodd Thomas Bach weithio fel un o dair injan stem lein bach Llyn Padarn.

Gwasanaethodd yn ddi-dor am bron i 30 o flynyddoedd ond cyn hir a hwyr daeth yr amser iddi gael ei hatgyweirio unwaith eto. Y tro hwn, cludwyd Thomas Bach i gwmni NBR Engineering, Darlington (cwmni sy'n arbenigo mewn atgyweirio peiriannau a trenau stem).

Adnewyddwyd Thomas unwaith eto ac, ar ddydd Mawrth y 29ain o Fedi, dychwelodd adref yn edrych fel injan newydd sbon ac yn barod unwaith eto i wasanaethu ar hyd cledrau Rheilffordd Llyn Padarn.

**Capel Coch:** Wedi misoedd o fod heb oedfa yn y Capel oherwydd argyfwng Covid-19, rydym wedi ail ddechrau cynnal oedfaon ers yr ail Sul ym mis Medi. Amser a ddengys a fydd modd i ni barhau i wneud hyn dros yr wythnosau nesaf gan na ŵyr neb ohonom a ddaw cyfyngiadau pellach i'w gwneud yn amhosibl i ni gyfarfod. Ond ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu cynnal oedfa bob pythefnos yn unig, am 10.00 o'r gloch ar yr ail a'r pedwerydd Sul o'r mis. Rydym yn gweithredu fel y mwyafrif o gapeli eraill sydd wedi ail ddechrau oedfaon trwy beidio â gwahodd pregethwyr heblaw ein Gweinidog i arwain ein hoedfaon. Mae'r oedfaon yn wahanol iawn: nid oes modd canu; mae pawb yn gwisgo mwgwd; a phawb yn eistedd o leiaf 2 fetr oddi wrth ei gilydd. Ac mae'r oedfaon yn fyrrach nag arfer; ychydig dros hanner awr o hyd yn unig.

Oherwydd y rheidrwydd i gadw 'pellter cymdeithasol' o 2 fetr, dim ond 20 o bobl all fod yn y gynulleidfa; ac felly, rydym yn gofyn i bawb roi gwybod ymlaen llaw eu bod am ddod i'r oedfa. Mae hynny'n beth chwithig iawn hefyd. Dim ond yr oedfa hon sydd wedi ail ddechrau hyd yma. Nid oes modd cynnal ein gweithgareddau rheolaidd eraill yn y Capel ar hyn o bryd, ac felly gwelwn golli'r Ysgol Sul, CIC, y Clwb Plant, Cân a Stori, a'r Boreau Coffi. Gobeithio'n fawr y bydd modd ail ddechrau'r cyfan pan fydd yn ddiogel gwneud hynny. Ond nid yw'r ffaith na chynhaliwyd oedfaon yn y Capel am chwe mis, a bod y gweithgareddau eraill hyn heb ail ddechrau yn y Capel, yn golygu bod gwaith eglwys Capel Coch wedi dod i stop. Mae'r Ysgol Sul wedi ci chynnal bob Sul ers y Cloi ym mis Mawrth (ar wahân i gyfnod gwyliau haf yr ysgolion) trwy gyfrwng Zoom. Diolch i Susan Williams, Cynllun Efe, am drefnu hynny gyda ni. Mae wedi bod yn braf gweld y plant yn cael hwyl wrth wrando stori a chanu, a thros y misoedd cyntaf pan oedd pawb yn gorfod aros gartref roedden nhw wrth eu bodd yn deud wrth ei gilydd be fuon nhw'n ei wneud yn ystod yr wythnos. Mae'r Ysgol Sul Zoom wedi ailddechrau erbyn hyn, ac rydym wedi gwahodd pant a theuluoedd o'r tu allan i Lanberis i ymuno â ni. Mae criw ifanc CIC hefyd wedi cyfarfod trwy gyfrwng Zoom, a phawb wedi mwynhau Cwis Mawr CIC bob pythefnos. Mae penderfyniad Capel Tanycoed, Llanrug, ar ddechrau'r Cloi Mewn, i gynnal eu hoedfaon ar y We wedi bod o help i ni gan fod aelodau Capel Coch wedi medru cael oedfa dan arweiniad eu Gweinidog bron bob Sul. Mae'r oedfaon hynny yn parhau, ac mae modd eu gweld unrhyw bryd ar Youtube: ewch i sianel 'Capel Tanycoed' i'w gweld. Rydym wedi parhau i gyhoeddi Gronyn, ein taflen wythnosol, bob Sul hefyd trwy gyfnod y Cloi. Mae modd darllen Gronyn unrhyw bryd ar wefan Gofalaeth Fro'r Llechen Las (ewch i gronyn.org i weld rhifyn diweddaraf ac ôl-rifynnau Gronyn).




BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch **(01248) 361044**
**D. P. OWENS** RHIWLAS


Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau • Achlysuon Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •
Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

ECO'r Wyddfa

## O'r Cynghorau

### Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo

## Cais am Aelod Newydd i Gyngor Cymuned Llanrug

Ydi eich cymuned yn bwysig i chi?
- A oes rhywbeth yr hoffech ei newid neu wella yn Llanrug a Chwm y Glo ar gyfer pobl leol?
- A ydych yn caru eich ardal ble rydych yn byw?
- A ydych yn barod i wneud penderfyniadau heriol?

Ydych chi wedi ystyried sefyll fel cynghorydd ar Gyngor Cymuned Llanrug? Mae'r Cyngor yn awyddus i lenwi sedd wag ar y cyngor, i gynrychioli Llanrug.

Beth ydi Cyngor Cymuned?
Hwn yw'r haen o lywodraeth leol sydd agosaf at y bobl. Mae'n chwarae rôl bwysig drwy gynrychioli buddiannau'r gymuned, drwy weithredu i wella ansawdd bywyd, yr amgylchedd ac i ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol. Mae'r cyngor yn codi'r rhan fwyaf o'i incwm drwy godi 'praesept', sef swm a gesglir o'r dreth gyngor bob blwyddyn.

Beth mae Cyngor Cymuned Llanrug yn ei wneud?
Yn ystod 2019 / 2020, fe ymgymerodd â'r canlynol sef:-
- cynnal a chadw dau faes chwarae yn Llanrug (Nant y Glyn a Phwll Moelyn);
- cynnal a chadw dau faes chwarae yng Nghwm y Glo (Dolafon ac Allt Goch);
- parc sglefrio Cwm y Glo;
- cyfrifoldeb am gyd gordio a gosod 4 diffibriliwr oddi fewn i'r ardal;
- cadw'r clwb ieuenctid ar agor yn Llanrug;
- gofalu am y maes parcio ger y Spar;
- cyflwyno sylwadau i Gyngor Gwynedd ar geisiadau cynllunio;
- gofalu am gysgodfannau bysiau Llanrug a Chwm y Glo;
- gweinyddu'r cynllun o gymorth ariannol i fudiadau lleol mewn grantiau;
- gweinyddiaeth o gynllun grant disgresiwn y Cyngor ar gyfer unigolion;
- darparu coed Nadolig a'u goleuo yn Llanrug a Chwm y Glo;
- cynnal a chadw'r fynwent yn Llanrug (sydd wedi ennill gwobr genedlaethol);
- trefnu dyddiadau casglu sbwriel Llanrug a Chwm y Glo;
- trefnu rhannu grit i drigolion yn ystod y gaeaf;
- cynnal gwefan y cyngor;
- cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus yr ardal;
- torri gwair o flaen ystadau;
- gweithredu'r cynllun cinio dydd Sul ar gyfer y rhai oedd yn ynysu yn ystod y cyfnod clo.

I'ch ystyried fel aelod o'r Cyngor rhaid bod yn ddinesydd Prydain, y Gymanwlad, Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd ac yn 18 oed neu'n hŷn, ac yn cyflawni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:
- wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal a enwir uchod; neu
- yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf, wedi bod yn berchennog neu'n denant tir neu safle arall yn y gymuned a enwir uchod; neu
- wedi bod â'ch prif neu'ch unig weithle yn ystod y 12 mis diwethaf yn y gymuned a enwir uchod; neu
- rydych wedi byw yn y Gymuned, neu o fewn 4.8 cilometr ohoni yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf.

Mae rhai pobl penodol wedi'u hanghymhwyso rhag ymgeisio, yn eu plith swyddogion cyflogedig y Cyngor, unrhyw un sy'n destun gorchmynion cyfyngu methdalwyr a'r rheiny sy'n destun dedfrydau o garchar yn ddiweddar.

Gellir cael mwy o fanylion drwy gysylltu â Mr Meirion Jones, Clerc y Cyngor, ar 07769 112875 neu drwy e-bost at clerc@llanrug.cymru neu unrhyw un o aelodau presennol y cyngor.
Os oes gennych ddiddordeb, dylech yn y lle cyntaf anfon nodyn o ddatganiad diddordeb at glerc y cyngor erbyn 5:00yh 16 o Hydref 2020.
Clerc: Meirion Jones

## Cystadleuaeth Logo Cyngor Cymuned Llanrug

Mae Cyngor Cymuned Llanrug yn edrych i foderneiddio a diweddaru ei logo presennol, oherwydd nid yw'r un presennol yn adlewyrchiad o weithgareddau, cyfrifoldebau presennol y cyngor, na'r ardal fel ag y mae heddiw.
Mae'r cyngor wedi creu cystadleuaeth i ddylunio logo newydd, sydd yn agored i unrhyw un sydd yn byw oddi fewn i ffiniau'r cyngor, sydd yn cynnwys Cwm y Glo a Phontrug. Mae'r cyngor yn hollol agored i syniadau a does dim amodau ar y logo.
Bydd y person sydd wedi creu'r logo a ddewisir yn derbyn taleb llyfrau o £30.
Gellir anfon ceisiadau i'r clerc at clerc@llanrug.cymru erbyn 31 o Hydref 2020 neu i'r cyfeiriad uchod.
Os ydych angen rhagor o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â mi.

## Cystadleuaeth Arwyddion gyrru Cyngor Cymuned Llanrug

Mae'r cyngor wedi creu cystadleuaeth i ddylunio arwyddion i'w lleoli o amgylch yr ardal i annog gyrwyr i arafu. Mae'r gystadleuaeth yn agored i unrhyw un sydd yn byw oddi fewn i ffiniau'r cyngor, sydd yn cynnwys Cwm y Glo a Phontrug.
Bydd y person sydd wedi creu'r arwydd a ddewisir yn derbyn taleb llyfrau o £30.
Gellir anfon ceisiadau i'r clerc at clerc@llanrug.cymru erbyn 31 o Hydref 2020 neu i'r cyfeiriad uchod
Os ydych angen rhagor o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â mi.

## Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug

a gynhaliwyd ar y 18fed o Awst 2020 (ar Zoom)
Adroddwyd fod y Cynghorydd Clifford Williams wedi ymddiswyddo o'r Cyngor ar ôl tua 45 mlynedd o wasanaeth ac fe dalwyd sawl teyrnged iddo gan yr aelodau.
Penderfynwyd i anfon llythyr iddo i ddiolch am ei waith dros y blynyddoedd i'r gymuned ac i'r Cyngor ac i awdurdodi'r Clerc i wneud y trefniadau angenrheidiol i lenwi'r sedd
Caeau Chwarae
Adroddwyd fod angen gwneud asesiad risg ar y coed o amgylch cae chwarae Allt Goch oherwydd nad oedd asesiad wedi ei wneud. Nodwyd fod pris wedi'i dderbyn gan 'arborist' i gario allan yr asesiad ond penderfynwyd i geisio pris arall gan fod y pris a gafwyd yn uwch na'r swm y gall y Cyngor ei dderbyn gydag un pris yn unig.
Torri Coed
Adroddwyd fod dwy goeden ger llwybr sydd yn arwain at Stad Sŵn yr Efail yn culhau'r palmant ar y Lôn Bost. Hefyd fod eiddew yn tyfu ar yr arwydd ffordd yn Groeslon Refail sy'n cuddio arwydd y fynwent a bod angen tocio'r ddwy goeden yn ymyl Erw Hywel. Penderfynwyd cyfeirio'r materion at Gyngor Gwynedd.
Mynwent yr Eglwys
Adroddwyd fod cyfarfod cychwynnol wedi bod gyda swyddogion o Eglwys St Mihangel Llanrug i gychwyn trafodaethau am drosglwyddo mynwent yr Eglwys i'r Cyngor. Adroddwyd ei fod yn angenrheidiol i'r Eglwys gario allan asesiad risg manwl ar gyfer y safle yn gyffredinol, y cerrig beddi, coed a waliau ac unrhyw ffens. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a chytuno i symud ymlaen a'r Cyngor gymryd drosodd rhedeg y fynwent ar yr amod fod yr asesiad risg yn cael ei wneud a bod unrhyw wendidau a risgiau yn deillio o'r asesiad risg yn cael eu datrys.
Derbyniwyd cais gan yr Eglwys am gyfraniad tuag at dorri gwair yn y fynwent yn unol â'r cytundeb arferol.
Cytunwyd i gyfrannu £150 ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf, sef cyfanswm o £450.
Cais Cynllunio
Penderfynwyd i gefnogi'r cais i godi modurdy a swyddfa yng nghefn yr eiddo yn 2, Carreg y Fran, Cwm y Glo
Cwynion ynglŷn â thraffig
Adroddwyd, yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn mis Chwefror, nad oedd nifer o bwyntiau a godwyd yn y cyfarfod wedi eu cario allan. Nodwyd yn ogystal ym mis Tachwedd 2019 fe gymeradwyodd y cyngor fwriad o ymestyn y cyflymder 40 milltir yr awr yn nes i gyfeiriad Pontrug.
Penderfynwyd:
1.Paratoi crynodeb o beth a gytunwyd yn y cyfarfod cyhoeddus gan nodi beth oedd angen ei gario allan ynghyd â manylion o beth sydd wedi ei wneud.
2.Cysylltu â Chyngor Gwynedd i holi pam na estynnwyd y cyflymder a pha bryd y bwriedir ei symud.
Ceir wedi'u gadael yn Nghwm y Glo
Adroddwyd fod nifer o geir yn parcio wrth waelod Allt Goch sydd naill ai ddim yn symud neu nad ydynt wedi eu trethu a'u yswirio ac yn amddifadu trigolion o lefydd parcio.

ECO'r Wyddfa

## O'r Cynghorau

### Cyngor Llanddeiniolen

Mae gan aelodau o'r cyhoedd a'r wasg yr hawl i fod yn bresennol yn y cyfarfod dilynol oddi tan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfod) 1960 Adran 1 a'i hymestynnwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Adran 100. Oni bai fe'i ataliwyd gan y Cyngor Cymuned drwy benderfyniad a wnaethpwyd ar ddechrau neu yn ystod y cyfarfod. Fodd bynnag, ni fydd hawl o'r fath yn cynnwys yr hawl i siarad ar unrhyw fater ac eithrio ar ddechrau'r cyfarfod ar yr amod fod rhybudd ymlaen llaw wedi ei roi i'r Clerc. Gan efallai na fydd materion a godwyd yn ystod y sesiwn gyhoeddus yn ymwneud ag eitemau ar yr agenda ni all unrhyw benderfyniad ar gyfer gweithredu gael ei gymryd. Bydd cofnod o'r cyfranogiad y cyhoedd yn cael ei gynnwys fel rhaglith yn y Cofnodion ac os oedd angen unrhyw gamau y byddant yn cael eu hadrodd ar yn nodiadau'r Clerc oddi tan hawl Materion Pwnc Gorffennol.

Bydd y Cyngor yn cyfarfod ar Nos Fawrth Cyntaf o bob mis, nes y gwelir yn glir i ni ail ddechrau ein cyfarfodydd mewn adeilad, yna yn rhithiol ar y we bydd holl gyfarfodydd Y Cyngor.

Os ydych yn dymuno ymuno ag unrhyw gyfarfod, yna cysylltwch â'r clerc am fwy o fanylion.

AGENDA

Cynhelir cyfarfod Blynyddol o'r uchod am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 3ydd Dachwedd 2020 drwy Zoom ar y we.

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfranogiad gan y cyhoedd, ac os oes unrhyw aelod o'r cyhoedd yn dymuno ymuno a'r cyfarfod, yna cysylltwch â'r clerc i gael manylion pellach.

Bydd trefn fel a ganlyn:

1.Croeso ac Ymddiheuriadau

2.Gweddi

3.Ethol Cadeirydd am y Flwyddyn 2020 - 2021

Gyda Chadeirydd Etholedig yn y Gadair, derbyn datganiad gan Y Cadeirydd o dderbyn y swydd.

4.Ethol Is-gadeirydd am y Flwyddyn 2020 - 2021

5.I greu ac ethol swyddogion sydd yn gyfrifol o swyddogaeth y Clerc

6.I ystyried creu ac ethol swyddogion Pwyllgor Llwybrau Cyhoeddus

7.I greu ac ethol aelodau ar Barciau a Meysydd Chwarae

8.I greu Unrhyw bwyllgor arall yn ôl doethineb Y Cyngor, ac i ethol swyddogion i'r pwyllgorau, os yn briodol.

9.I ethol cynrychiolydd ar Lywodraethwyr :

Ysgol Gynradd Gwaun Gynfi

Ysgol Gynradd Penisa'r-waun

Ysgol Gynradd Bethel

Ysgol Gynradd Rhiwlas

10. ethol cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd Un Llais Cymru

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiad am yr uchod neu am waith y Cyngor tuag at y Clerc:

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol gan Fudiadau Gwirfoddol. Mae ffurflen gais i'w gael i lawr lwytho ar Wefan Cyngor Llanddeiniolen, neu ar gais gan y clerc. Oherwydd effaith Covid 19 ar gyfarfodydd Y Cyngor a sawl mudiad rydym wedi penderfynu ymestyn y dyddiad cau eleni. Gofynnwn i geisiadau gyrraedd y clerc dim hwyrach na Hydref 23ain. Bydd angen cynnwys Mantolen Ariannol Gyfredol yn cynnwys manylion banc wedi ei ardystio gyda'r cais i sylw:

Eleri Bean, Bwthyn Isaf, Deiniolen, Gwynedd. LL55 3LS
neu
clerc@cyngorllanddeiniolen.cymru

## Un funud fach ...

## LLYFR I BAWB

Un arall eto fyth! Yn ôl yr hysbyseb a anfonwyd ataf heddiw, 'must-read' o lyfr: un o'r cannoedd o lyfrau ar amrywiol bynciau a ddisgrifir felly gan eu cyhoeddwyr. Be 'di peth felly yn Gymraeg deudwch? 'Darllen gorfodol'? 'Llyfr sydd raid ei ddarllen'? Ydi'r ffaith nad yw'n hawdd meddwl am derm Cymraeg cyfatebol yn awgrymu fod awduron a chyhoeddwyr Cymru'n fwy gwylaidd ac yn llai parod i honni fod rhaid i eraill ddarllen eu gwaith.

Digwydd bod mai llyfr am y Beibl oedd yr un a awgrymwyd i mi heddiw, ond caiff pob math o lyfrau'r un broliant er mwyn perswadio pobl i'w prynu. Ond beth yn union yw 'must-read'? Yn ôl un geiriadur: 'Something that many people want to read or that a particular group of people should read'. Ac yn ôl y diffiniad taclus hwn mae aml i fywgraffiad a nofel a llyfr taith yn 'must-read'. Mae'n amlwg fod cyhoeddwyr y llyfr a awgrymwyd i mi heddiw o'r farn fod hwn hefyd yn deilwng o'r term. Fwy na thebyg ei fod yn llyfr gwerth ei ddarllen ac y bydd o ddiddordeb i lawer o bobl.

Ond ydi hwn wir yn llyfr sydd 'raid' ei ddarllen? Ydi hi'n gwbl hanfodol i unrhyw wneud hynny? Oherwydd onid am un llyfr yn unig y medrwn ddweud fod rhaid i bobl ei ddarllen? Nid llyfr am y Beibl yw hwnnw fodd bynnag, ond y Beibl ei hun. Ac eto, nid yw'r diffiniad uchod o 'must-read' o fawr help i ni ddeall pam y dywedwn hynny.

'Rhywbeth y mae llawer o bobl am ei ddarllen'? Mae'n wir fod llawer o bobl yn awchu am ddarllen y Beibl; ond mae yna lawer hefyd nad oes ganddynt ddiddordeb o gwbl ynddo. Ond mae'r llyfr hwn ar eu cyfer hwythau, er na sylweddolant hynny ac er nad oes ganddynt nac awydd na bwriad i'w ddarllen. Un o'r pethau sy'n gwneud y Beibl yn llyfr cwbl unigryw yw'r ffaith fod ei neges wedi ei bwriadu ar gyfer pobl nad ydynt am ei chlywed, er bod arnynt angen sylfaenol am yr hyn a gyhoeddir trwyddi. A thros y canrifoedd, bu Duw trwy ei Air yn cyfarch a goleuo pobl nad oedd ganddynt ohonynt eu hunain yr awydd lleiaf i glywed yr hyn sydd ganddo i'w ddweud wrthynt.

A llyfr 'y dylai grŵp penodol o bobl ei ddarllen?' Yn wahanol i lyfrau a luniwyd ar gyfer darllenwyr penodol, mae'r Beibl ar gyfer pawb. Nid ar gyfer pobl grefyddol na haneswyr nac academyddion na charwyr llenyddiaeth fawr y'i hysgrifennwyd, ond ar gyfer pawb o bobl y byd. Oherwydd y mae'r hyn a ddatguddir yn y llyfr hwn am Dduw, ac am y ffordd at Dduw trwy ei Fab Iesu Grist, yn newyddion da y mae ar bawb wir angen ei chlywed a'i deall a'i chredu.

Ia, llyfr ar gyfer pobl sydd am ei ddarllen a phobl nad oes arnynt eisiau ei ddarllen; a llyfr nid ar gyfer math arbennig o bobl ond ar gyfer pawb am fod yn newyddion da sydd ynddo'n cael ei gynnig i bawb ohonom.

JOHN PRITCHARD



# Ar ben arall i'r lein

Mae'n anodd ail afael yn y bensal yn dilyn bron i saith mis o segurdod, er hynny dydi'r byd pysgodfaol ddim, yn ôl pob golwg, wedi bod yn rhan o'r byd cau-lawr sydd wedi bod o'n cwmpas. Cyn gynted ac y ddaeth y gorchymyn i aros gartref mi oedd Llyn Padarn fel magnet i griwiau o'r fro. Roedd ein haelodau yn parchu'r 'aros gartref' ond i nifer fawr eraill o bentrefi Llanberis a Deiniolen tydi rheolau yn meddwl dim. Roedd glannau Padarn fel Maes Caernarfon ar nos Sadwrn, gyda nifer fawr yn trio eu lwc. Er ceisio cael cefnogaeth gan yr Heddlu a Chyngor Gwynedd i geisio cael trefn ar bethau, ofer oedd ein ymdrechion, ond cofiwch dydw i ddim am feirniadu'n rhy hallt pan ddaeth y wybodaeth fod goruchwyliaeth Parc Padarn wedi cyhoeddi'n lleol mai Cyngor Gwynedd oedd perchenogion hawliau pysgota'r glannau a bod croeso i bawb fwynhau'r adnodd. Felly, pwy all feirniadu pan yn cael cyhoeddiad gan gorff sydd i fod yn gorff cyfrifol fod pysgota i'w gael am ddim. Mi aeth y sioe yma ymlaen am rhai wythnosau cyn i'r cyngor, o'r diwedd, sylweddoli eu bod yn cyhoeddi gau-wybodaeth.

Wrth gwrs nid yn unig pysgota sydd wedi bod yn boblogaidd, mae Llanberis a Phadarn yn cael eu gor-redeg gan ymwelwyr, does dim modfedd wedi bod ar gael i ni'n lleol gael tipyn o seibiant. Mae wedi bod fel Ffair Gaer o Benllyn i Ben y Pas. Y broblem oedd, ac yn dal i fod ar adegau, nad yw rhain yn gadael llawer o fudd ariannol ar eu holau. Ond, wrth gwrs, tydi be sy'n cael ei adael ar ôl ddim ddim o fudd i neb, felly y rhybudd i'n aelodau yw 'gwyliwch ble 'rydych yn rhoi eich traed!'

Dyna ddigon ar y beirniadu a throi y gyllell rhyw ychydig yng ngweithgareddau Parc Padarn. Ond rhaid rhoi clod ble mae'n haeddiannol – Mae Cyngor Gwynedd, cyn belled ac mae cymorth i fusnesau bach, yn cynnwys y Gymdeithas, wedi bod yn ardderchog. Diolch o galon i chwi oll sy'n gweithredu'r cynllun, heb eich cymorth mi fuasai'n anodd iawn cario 'mlaen.

Gyda'r holl ystormydd yn rhuo o'n cwmpas fel pysgota anghyfreithlon, potsio, difrod i eiddo ac yn fwy na dim aelodau'n teimlo'n rhwystredig ac yn methu troedio'r glannau. Ond diolch i'r drefn, ar ddechrau Gorffennaf daeth haul ar fryn gyda'r cyhoeddiad fod yn bosib agor yr holl ddyfroedd. Sut bydd pethau yn dilyn y cyhoeddiadau rhwystredig newydd a gyhoeddwyd ddiwedd Medi, wel amser yn unig a ddengys.

Sut mae pethau wedi troi allan yn dilyn agor y dyfroedd? Yr ateb yw ardderchog. Roedd rhyw ddisgwyl fod y byd ar ben gyda physgota yn dilyn y cyhoeddiadau negyddol gan Gyfoeth Naturiol Cymru a'u meistri lawr yn y Bae 'na. Yr eog ar fin marw allan, dirywiad ofnadwy yn niferoedd y brithyll môr, rheolau llym yn cael eu cyflwyno, neb i gadw eog at y badell neu mi fydd holl "rym y gyfraith yn eich melltithio". Dyma oedd i fod i'n wynebu. Be ddigwyddodd? Wel, wyddoch chi be? Dyma'r tymor gorau i ni ei gael gyda'r brithyll môr ers o leiaf 30 blynedd, hefyd mae'r eogiaid cynharaf ers 1977 wedi eu dal ar y Seiont. Gallaf gadarnhau hyn gyda'r eog oherwydd ar ddechrau Gorffennaf 1977 cefais eog 7 pwys o'r Finiog a does 'run cynharach wedi ei ddal ers hynny. Hefyd mae'r brithyll brown wedi rhoi sioe ardderchog arni gyda'r afonydd ar llynnoedd yn 'sgota'n eithriadol. Roedd rhyw ragflas o hyn wedi dod o Lyn Padarn yn ystod y cloi mawr a'r pysgotwyr a oedd yn anwybyddu'r rheolau. Roedd adroddiadau yn dod i law am nifer fawr o dorgochiaid yn dod i'r rhwyd, a'u bod yn cael ei rhannu o gwmpas rhai pentrefi. Ond dyna ni, gobeithio fod pethau yn dechrau dod i drefn, a phawb yn sylweddoli pa mor werthfawr yw pysgota lleol – ond da chi ymunwch â'r Gymdeithas neu yn y diwedd fydd dim byd gwerth ei gael i neb. Does dim pwynt cwyno bod tâl aelodaeth yn rhy ddrud – dyma fel mae hi i rai dan 18 oed. Dan ddeuddeg oed – am ddim. Rhwng 12 a 18 ml oed £20.

Ond yn ôl at y Seiont, mae nifer o wyniadau trwm wedi dod i'r rhwyd a'r trymaf hyd yn hyn yw un am 10 pwys o'r Finiog i Ian Williams, Llanberis (mae rhai o Lanber yn aelodau!) Dyma hyd yn hyn fydd yn cipio Tarian Vyrnwy Evans eleni am y gwyniedyn trymaf. Eraill sydd wedi bod yn llwyddo'n fedrus o'r Seiont yw Llŷr Roberts, Waunfawr gyda gwyniedyn 7 pwys o'r Finiog. Ceirion Owen, gwyniedyn 6 pwys o Pont Rug. Dafydd Williams, Caernarfon – gwyniedyn 3 pwys ac eog 7 bwys o'r Finiog. Geraint Owen, Llanrug, eog 9 pwys Pont Rug. Dr Robin Parry, Llanberis eog 7 bwys a nifer o wyniadau o'r Finiog, Glan Gwna a gwastadoedd Cwm. Be sy'n galonogol eleni yw'r nifer o aelodau newydd sydd wedi bod yn llwyddiannus, hefyd yr aelodau ifanc sydd wrthi yn galed ac wedi cael eu gwobrwyo'n hael gyda physgod ardderchog – dyma rai sydd wedi anfon lluniau – Robin Owen, Penygroes brithyll brown 3 phwys, Dywarchen. Ianto Dafydd, Waunfawr, brithyll brown 5 pwys, Dywarchen.

Draw ar y Llyfni mae'r rhediadau o wyniadau wedi bod yn anhygoel, gyda'r pysgod yn gwau drwy ei gilydd ym mhyllau isa'r afon. Yma eto fe fydd tipyn o drafferth gyda rhai o Bontllyfni yn pysgota heb drwyddedi, Rydym yn sicr bod cyfnod o orfodi cael eu cloi gartref wedi creu cyfnod o ddryswch llwyr ar feddylfryd rhai, ac eu bod yn ystyried yn iawn ei bod yn dderbyniol diystyru pob rheol a deddf gwlad. Efallai, ar y llaw arall, bod criw o gwmpas y lle dan yr argraff fod popeth i'w gael am ddim, ac eto mi fyddent yn mynd i Gaernarfon a thalu £4 am beint. a chwyno dim. Does eisiau gras hefo rhai 'dwch.



Fel rhan o gyfansoddiad y Gymdeithas mae'n ofynnol cynnal Pwyllgor Blynyddol, fel arfer ar yr ail nos Iau o Ragfyr, Mae'r clwb wedi bod yn rhedeg ers 1909 ac eleni yw'r tro cyntaf i'r cyfarfod yma gael ei ohirio, oherwydd rhwystrau sy'n ymwneud â chyfarfod â'n gilydd. Gobeithio y bydd i'r holl aelodaeth gydweithio ar be sy'n cael ei gynnig, bydd y dogfennau i gyd yn cael eu hanfon drwy'r post a hefyd bydd posib craffu arnynt ar ein safle we, sef www.sgll.co.uk o ddechrau Tachwedd.

Bydd y tymor yn dod i ben ar yr holl ddyfroedd ar 17ed Hydref, hynny yw heblaw yr Afon Seiont o Bontrhythallt i Gaernarfon, ble mae'n bosib pysgota pluen yn unig am yr eog, a chofiwch roi pob un yn ôl! Hefyd Llyn y Dywarchen, sy'n agored hyd at 30ed Tachwedd, a chyn i rywun ofyn, wel yndi mae'n gryn waith cadw'r holl beth ar ei draed, rhaid meddwl am yr holl ddyfroedd a'r gwaith cynnal. Melin y Cim, ein llety hunan gynhaliol ym Mhontllyfni, Y ddeorfa yn Crawia a'r gwaith magu sy'n mynd ymlaen. Stocio Dywarchen yn fisol, a chynnal a chadw'r holl gychod. A ia, Criw bach sydd wrthi yn rhedeg yr holl beth – a'r cwbwl yn cael ei wneud yn wirfoddol gan Gymru Cymraeg lleol. Tipyn o gamp y dyddiau yma – felly, o waelod calon, diolch i chwi oll am eich brwdfrydedd.

Huw Price Hughes



## COLOFN CHWARAEON ECO'R HYDREF 2020

Croeso'n ôl ddarllenwyr ffyddlon. Gobeithio eich bod yn dygymod fel teuluoedd drwy yr amser dyrys yma. Cyfnod o glo yn sicr ym myd y campau lleol. Dim gemau, awyr agored na than do a dim cynghreiriau lleol. Dim cyfleusterau ymarfer fel campfeydd a phyllau nofio chwaith. Rydym yn gaeth i'r tŷ gyda'r teledu yn chwydu allan ein adloniant. Diolch amdano, ond tybed beth fydd yr effaith ar chwaraeon lleol pan ddaw yr aflwydd i ben? Un agwedd braf yw gweld mwy yn troi at agweddau ffitrwydd personol fel cerdded, beicio neu redeg. Clywais si fod ambell bentref yn trafod sefydlu Clybiau Cerdded. Bydd hyn yn bwysig. Gyda llawer yn gweithio o gartref mae'n bwysig i ni ail-greu elfennau cymdeithasol yn ein hardaloedd, a chyd-gyfarfod unwaith eto. Bydd yn gyfnod ble bydd galw am wirfoddolwyr yn ein clybiau yn enwedig ymysg ein hieuenctid. Gall y cyfnod hirfaith yma o glo gael effaith andwyol ar fyd y campau ar lefel cefn gwlad. Rhaid cofio hefyd fod cost dal i fod ar gynnal meysydd er nad oes gemau yn cael eu chwarae.

## CROESO

Braf yw cael croesawu aelod newydd ataf i'r Golofn Chwaraeon. Mae Mared Jones o'r Waunfawr yn ddilyn-wraig o sawl agwedd o fyd y campau. Fel ei theulu, mae'n aelod o'r Wal Goch sy'n dilyn milwyr Giggs hwnt ac yma. Ond, rwyf wedi rhoddi rhwydd hynt i Mared ddewis ei thestun ei hun yn fisol, a braf fydd gweld agweddau o fyd y campau o bersbectif merch. Croeso, a diolch Mared.

## LLENWI'R GOFOD

Yn ystod y cyfnod clo rwyf wedi bod yn treulio oriau yn ysgrifennu llyfr. Y testun yw fy nghysylltiad o 60 mlynedd gyda byd criced ar lefel amatur ac yn benodol gyda chlwb criced Bangor, wedi ei leoli wrth gwrs yn Llandygai, fy mhentref genedigol. Bydd yn croniclo gemau o'r lleol i'r rhyngwladol, cyd-chwaraewyr, teithiau, gemau yn erbyn timau sirol proffesiynol, dyfarnu a llawer mwy. Mae'n trafod hefyd y manteision ac anfanteision o'r newidiadau fu yn null trefniant criced y Gogledd dros y 60 mlynedd diwethaf. Dyfodiad y dull cynghreiriol o chwarae. Dulliau hyfforddi. Diffyg timau ieuenctid mewn rhai ardaloedd, ac effaith hynny ar ddyfodol y gêm. Digon i gnoi cil. Edrychaf ymlaen i'w orffen – bydd fersiwn Cymraeg a Saesneg ar gael.

## BETH FYDD Y DREFN?

Ie, bu cryn ddyfalu beth fuasai sefyllfa y bêl-droed yn lleol os bu tymor eleni. Yn annheg yn nhyb llawer mae nifer o glybiau traddodiadol fu'n gefn i'r gêm fel Llanrug a Llanberis wedi eu haberthu ar allor 'datblygiad' yn seiliedig ar gyfleusterau. Mae sawl clwb gwanach wedi manteisio ac wedi camu ymlaen. Yr un elfen yn hyn oll yw darganfod chwaraewyr o safon i'r holl glybiau yma sy'n gweddu i'w statws. A fydd chwaraewyr yn aros yn ffyddlon i'r clybiau a'u cefnogodd dros y tymhorau? A fydd pwnc llosg 'taliadau' dan bwrdd yn codi ei ben. Mae rheolau newydd CPDC yn dweud nad oes chwaraewyr o dan rhyw lefel i dderbyn unrhyw daliad. Beth am 'expenses'? Mae'n hyddysg yn ein hardaloedd am ambell chwaraewr na fuasai'n codi o'r gadair ar bnawn Sadwrn heb fod taliad ar ddiwedd y dydd. Beth am noddwyr ? Ydyn nhw am aros yn ffyddlon i'r clybiau lleol ar y rhengoedd isaf? A beth am y cefnogwyr? Mae arian y 'giat' beth bynnag ei faint yn anghenrheidiol i bob clwb. Tybed dros y cyfnod clo yma a bydd newid strategaeth oddi uwch. Amser a ddengys – er gwell , er gwaeth.

# CWIS Y CLO

1. **Pa ddau faes criced ddewiswyd ar gyfer y gwahanol gemau prawf ac undydd yr haf yma?**
2. **Pam?**
3. **Ar ba ynysoedd bu ein clybiau pêl-droed Cymreig yn cystadlu yng Nghwpan Ewropa eleni?**
4. **Yn erbyn pa glwb y derbyniodd George North gerdyn coch am dacl beryglus?**
5. **Pwy enillodd Bencampwriaeth y Dynion yng Nghystadleuaeth agored yr UD yn ddiweddar?**
6. **Pa sianel deledu fydd yn darlledu rhai o gemau rygbi rhyngwladol yr Hydref am y tro cyntaf?**
7. **Pa chwaraewr o Awstralia drawodd yr ergyd olaf i sgorio'r rhediadau I guro Lloegr yn y gyfres 50 pelawd?**
8. **Ym mha gamp mae'r Cymro Jackson Page yn cystadlu?**
9. **Pa ddau dîm pêl-droed gafodd ddyrchafiad i Uwch Gynghrair Cymru y tymor hwn?**
10. **Pwy yw'r ddau gefnwr de olaf i sgorio goliau rhyngwladol i dîm dynion Cymru?**

*ATEBION I'W GWELD AR DUDALEN 6*

# Merched Cymru yn gobeithio am le yn Euro 2021




Chwaraeodd merched Cymru eu her fwyaf hyd yma ar eu taith i gymhwyso ar gyfer Euro 2021 (sydd wedi ei ohirio nes 2022) ar yr 22ain o Fedi. Roeddent yn wynebu Norwy oddi Cartref yn Oslo yng ngem hanner cant Jayne Ludlow wrth y llyw. Norwy sydd ar frig Grŵp C, ac nid ydynt wedi colli gem yn yr ymgyrch hyd yma gyda 32 o goliau wedi cael eu sgorio mewn 4 gem. Roedd merched Cymru yn gwybod felly fod ganddynt dasg anodd o'u blaenau yn erbyn y tîm o Sgandinafia.

Oherwydd sefyllfa y Coronavirus doedd y merched heb chwarae gyda'i gilydd ers iddyn nhw ennill yn erbyn Estonia yn y Cae Ras ym mis Mawrth sydd yn teimlo fel hydoedd i ffwrdd erbyn nawr! Cafodd Sophie Ingle ei henwi yn nhîm Jayne Ludlow oedd yn golygu ei bod hi yn ennill ei 100fed cap i Gymru, dim ond y 3ydd merch i gyrraedd y garreg filltir hon gan ddilyn ôl troed Jess Fishlock a Loren Dykes. Sophie Ingle wedi serennu yn y Women's Super League tymor diwethaf i Chelsea gan ennill lle ar restr fer Chwaraewraig y Flwyddyn. Braf hefyd oedd gweld Jess Fishlock yn dychwelyd i'r garfan ar ôl bod allan am 18 mis gyda anaf. Mae Jess Fishlock wedi ymuno gyda Reading tymor yma ble mae hi'n chwarae ynghŷd â'i chyd-chwaraewyr Cymraeg Natasha Harding, Rachel Rowe, Angharad James a Lily Woodham.

Yn anffodus, colli oedd hanes Cymru yn y gem yn erbyn Norwy ac hynny o un gôl i ddim. Rhoddodd Guro Reiten y tîm cartref ar y blaen o fewn hanner awr yn dilyn cic gornel. Clipiodd y bêl i gornel dop y rhwyd gan ddrysu Laura O'Sullivan, gôl-geidwad Cymru oedd wedi ceisio dyrnu'r bêl gan fethu'n llwyr. Yn sicr, mi fyddai hi wedi bod yn siomedig gyda hyn. Serch hynny, mae hi wedi bod yn aelod allweddol o garfan Cymru yn ystod yr ymgyrch hon.

Cafodd Cymru eu cyfleon drwy gydol y gêm gyda Kayleigh Green yn cymryd siawns am gôl wrth i gôl-geidwad Norwy, Cecilie Fiskerstrand ddod allan o'i safle ond aeth yr ymdrech hwnnw yn llydan. Natasha Harding oedd y nesaf i gymryd tro ond dros y trawst aeth y bêl. Er yr holl ymdrechion methodd Cymru i gael y bêl i'r rhwyd.

Sgoriodd Caroline Graham Hansen ail gôl i Norwy ond yn ddadleuol fe gafodd ei diystyru oherwydd camsefylliant. Llygedyn o obaith felly i Gymru i wthio am y pwynt hollbwysig. Buodd rhaid i Hansen fynd i ffwrdd ychydig o funudau yn ddiweddarach oherwydd anaf, oedd yn sicr yn hwb ychwanegol i ferched Cymru a hithau wedi sgorio 10 gôl mewn 4 gêm! Roedd amser yn mynd yn brin i Gymru ddod yn gyfartal ac fe ddaeth Helen Ward ar y cae yn lle Anna Filbey i geisio rhoi hwb ymosodol ar gyfer y 10 munud olaf. Er fod Cymru yn pwyso ar amddiffyn Norwy, roeddent yn rhy gryf. Roedd gwaedd am gic o'r smotyn yn y bocs ond doedd gan y ddyfarnwraig ddim diddordeb, felly cyfle arall i unioni'r sgôr wedi cael ei golli reit ar ddiwedd y gêm.

Wrth adlewyrchu mae rhywun yn teimlo fod y canlyniad yn un chwerw i Gymru yn enwedig am eu bod wedi rhoi y pwysau ar Norwy am y 90 munud a ddim wedi gadael iddynt eistedd yn ôl. Gallai Jayne Ludlow fod yn falch iawn o berfformiad y merched yn enwedig o ystyried fod Norwy yn 12fed yn y byd. Kayleigh Green ag Angharad James wedi bod yn wych ar y bêl a Rhiannon Roberts wedi serennu (fel arfer). Anodd yw meddwl am gêm ble nad yw Rhiannon Roberts wedi bod yn wych!

Ar y cyfan felly, bydd y merched yn cicio eu hunain am beidio cymryd y cyfleon ond gallent fod yn falch iawn o'u perfformiad a bydd yn bwysig cadw'r safon fyny ar gyfer y gemau nesaf.

Norwy felly sydd ar frig grŵp C gyda 15 pwynt ac mi fydden nhw yn ennill lle yn Euro 2021 os y llwyddant i ennill eu gêm nesaf yn erbyn Belarus. Mae Cymru yn yr ail safle gyda 8 pwynt ond mae Belarus yn agos iawn tu ôl gyda 6 phwynt a hwythau gyda gêm wrth law. Mae Gogledd Iwerddon yn eu dilyn nhw gyda 5 pwynt a Faroe Islands ar waelod y grŵp. Bydd y gemau nesaf yn bwysig iawn i Gymru felly gan mai ennillwyr pob grŵp a'r 3 tîm gorau yn yr ail safle sydd yn ennill lle yn awtomatig i Euro 2021. Bydd yn rhaid i'r 6 tîm sydd ar ôl yn ail safle y grwpiau fynd trwy'r gemau ail gyfle i gipio'r 3 safle fydd ar ôl. Gyda Norwy yn fwy na thebygol i ennill y grŵp mi fydd hi'n frwydr tan y diwedd rhwng Cymru, Gogledd Iwerddon a Belarus am yr ail safle. Mi fydd Cymru yn chware Norwy a Faroe Islands fis nesaf cyn gorffen yn yr ymgyrch yn erbyn Belarws mis Rhagfyr. Yn fantais i Gymru mae'r 3 gêm yn gemau gartref felly gobeithio bydd hynny yn rhoi hwb ychwanegol i ferched Jayne Ludlow i ennill eu lle yn Euro 2021 yn Lloegr.